

Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21	7
3.	Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021	24
4.	Cynllun Blynyddol 2021-22 ac Adroddiad Interim 2021-22.....	27
5.	Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023	30
	Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	54
	Atodiad B: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023	55

1. Cyflwyniad

Cefndir Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

1. Cafodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.¹ Roedd y Ddeddf yn rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn parhau ac yn creu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Roedd hefyd yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.
2. Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, yn ogystal â Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu SAC. Mae SAC yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, yn dal ac yn darparu adnoddau ac yn codi ffioedd ar gyfer gwaith yr Archwilydd a SAC. Cynrychiolir SAC gan Fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd anweithredol, aelodau anweithredol eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodir o blith y cyflogeion a dau aelod a etholir o blith y cyflogeion.
3. Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol yr Archwilydd Cyffredinol a SAC, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Trefniadau atebolrwydd a llywodraethu

4. Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o swyddogaethau i Senedd Cymru (y Senedd). O dan adran 28 o'r Ddeddf, caiff y Senedd wneud darpariaeth drwy'r Rheolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Senedd neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".² Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10, dirprwywyd goruchwyliaeth SAC i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor).³
5. Gwnaed gwaith craffu blynyddol y flwyddyn hon ar SAC a'r Archwilydd Cyffredinol mewn dwy ran.

¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

² Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

³ Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 1 Hydref 2013

6. Trafododd y Pwyllgor y cyhoeddiadau a ganlyn ar **29 Medi 2021** a chymryd dystiolaeth gan Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol, Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd SAC, a dau swyddog o Archwilio Cymru:

- **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21;**
- **RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021;**
- **Cynllun Blynyddol 2021-22.**

7. Ar **10 Tachwedd 2021**, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol, Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd SAC, a dau swyddog o Archwilio Cymru ar y cyhoeddiadau a ganlyn:

- **Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023;**
- **Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2021-22 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021;**

Casgliad 1. Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21;
- Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021;
- Cynllun Blynyddol 2021-22;
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2021-22 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21

8. Gosodwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2020-21⁴ gerbron y Senedd ar 29 Mehefin 2021. Paratôdd yr Archwilydd Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu SAC, y Cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 ei baratoi ar y cyd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC, yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf.⁵

Cyflawni'r cynllun gwaith

9. Dywed yr Adroddiad Blynyddol fod swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn "weddol gyson" â Chynllun Blynyddol 2020-21 ond "gyda rhai newidiadau sylweddol a wnaed i waith a gynlluniwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19". Mae hefyd yn nodi bod y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun hwnnw wedi'u "cyflawni'n sylweddol", gan gyflawni ei raglen waith archwilio lawn yn 2020-21.⁶

10. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi, yn wyneb y pandemig, y dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"...yn gyflym wrth y cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio y byddem yn mabwysiadu dulliau cyflawni amgen ac yn ail-bwysleisio llawer o'n gwaith i sicrhau nad oedd yn ychwanegu at y pwysau yr oedd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu."*⁷

11. Gwthiwyd rhywfaint o waith yn 2020-21 yn ôl, gydag agweddau eraill wedi'u lleihau (megis gwaith ar gynllunio gweithlu Llywodraeth Cymru). Y llynedd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor Cyllid blaenorol, er bod arbedion cost o ran teithio, fod gwneud gwaith cyfrifon o bell ychydig yn llai effeithlon.⁸ Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ailadrodd hyn, gan nodi bod y broses yn "cymryd mwy o amser".⁹ Mewn gohebiaeth ddilynol, esboniodd Archwilio Cymru, er ei fod wedi gallu cael mynediad at systemau'r GIG

⁴ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21

⁵ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

⁶ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalennau 3 a 18

⁷ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 9

⁸ Y Pwyllgor Cyllid (Y Bumed Senedd), Cofnod y Trafodion, 2. Tachwedd 2020, paragraff 89

⁹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 18

at ddibenion archwilio, fod systemau gwahanol llywodraeth leol yn golygu mai “cymysg” fu’r mynediad o bell i archwilwyr.¹⁰

12. O ran cyflawni archwiliadau, mae’r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu’r canlynol:

“Cwblhawyd ein holl archwiliadau o gyfrifon cyrff y GIG ar gyfer 2019-20 a darparwyd barnau dilynol gan yr Archwilydd Cyffredinol erbyn 2 Gorffennaf. Cwblhawyd mwyafrif ein harchwiliadau o gyfrifon llywodraeth leol a llywodraeth ganolog ar gyfer 2019-20 erbyn diwedd mis Medi 2020. Cwblhawyd y gweddill erbyn diwedd mis Hydref, pan ddechreuodd y cylch archwilio cyfrifon nesaf (2020-21).”¹¹

13. Ymhelaethodd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyflawni ac ail-lunio gwaith archwilio yn 2021:

“...we met something like 98 per cent of all our statutory deadlines. Those are essentially for the audit of accounts work that we do, but also a very high proportion, over 90 per cent, of the other audit products that we produce—value-for-money studies and so forth—that Members will be familiar with. Over 90 per cent of those we met the timetables we set as well. And that was after we had reshaped a lot of our work to reflect the new priorities that we saw as a result of COVID. So, Members may be familiar with work that we have delivered in areas such as the vaccination programme; the delivery of the test, trace, protect programme; the procurement of personal protective equipment; and also some major pieces of work on the big financial flows and their impact.”¹²

14. Hefyd, mae’r Adroddiad Blynyddol yn pwysleisio bod gwaith arferion da wedi newid i gyflawni prosiect gwersi COVID, gan gynnwys drwy “lif rheolaidd o negeseuon Twitter, blogiau, crynadau pythefnos a gweminarau ar-lein cyfnodol”, a daethpwyd â hyn i gyd at ei gilydd mewn digwyddiad dysgu wythnos o hyd ym mis Mawrth 2021.¹³

15. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod staff yn defnyddio rhwydweithiau o gysylltiadau drwy’r sector cyhoeddus i gasglu llawer o wybodaeth er mwyn darganfod sut roedd sefydliadau’n mynd i’r afael â materion i chwilio am

¹⁰ Llythyr gan Archwilio Cymru – 11 Tachwedd 2020

¹¹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 23

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2021, paragraff 111

¹³ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 26

dueddiadau, patrymau neu wersi i'w dysgu o hynny a'u rhoi i'n partneriaid mewn mannau eraill mewn amser real bron.¹⁴

16. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod adborth ar y prosiect gan y cyrff a archwiliwyd wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda phartneriaid yn cydnabod gwerth cymorth a chynghor llawer mwy uniongyrchol ac amser real ganddynt, yn hytrach na'r dull mwy ôl-weithredol a fyddai'n draddodiadol i'n gwaith archwilio. Er bod y prosiect wedi dod i ben, nododd ei awydd i gadw rhywfaint o'r ymateb llai manwl ac uniongyrchedd mewn llawer o'u gwaith.¹⁵

17. Wrth gael ei holi ar effaith gweithio o bell ar waith Archwilio Cymru, cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol ei fod wedi cynnig rhai manteision ac arbedion effeithlonrwydd, megis cael mynediad at systemau ariannol o bell a lleihau'r angen i deithio. Aeth yn ei flaen:

*"That said, on the whole, we're finding this is a less efficient way of undertaking a lot of our work. We estimate that in 2021 we saw something like a 20 per cent cost overrun that we've had to absorb as an organisation, and that level of overrun is very similar to that seen by our colleagues in the other public audit institutions in the UK, and, indeed, by the private sector firms. But where that bites in practical terms is just in the reality of the conversations that we have to have with colleagues in audited bodies. We pose them questions, we ask them for information and evidence to support our audit work, and that can prove tricky to do in this environment, for reasons you'll understand."*¹⁶

18. Yn ogystal, pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod yn anodd cyflawni agweddau penodol ar waith archwilio, megis archwiliadau ffisegol. Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio sut y gwnaeth oresgyn yr her hon:

"...instead of a member of staff being able to just walk around and physically verify an asset, we had to work very closely with the finance teams in the audited bodies to identify the assets themselves, take photos, send them over to us. So, it just all took that little bit longer, but, again, working closely with the finance teams, I think we were able to achieve

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraff 124

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraff 125

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraff 113

*miracles, really. I think some of what we've learnt throughout the pandemic probably will remain with us.*¹⁷

19. O ran gwneud gwaith archwilio cyfrifon, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod Archwilio Cymru wedi gallu cyflawni ei raglen waith lawn drwy ohirio llawer o'r gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer archwiliadau'r blynyddoedd dilynol, gan nodi bod ôl-groniad o waith y mae'n anodd iawn ennill y blaen arno.¹⁸

20. Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at oblygiadau eraill gweithio o bell:

*"...one is around learning and development for our staff... Around 60 of our staff who are graduate trainees or apprentices at a very early stage of their career, they, understandably, require quite a degree of supervision and support from more experienced colleagues. That is difficult to provide in the same way in this kind of environment. And lastly, we're missing—like all organisations, I suspect—some of the softer side of working in the same physical space."*¹⁹

21. O ran rhoi cefnogaeth yn y dyfodol i gyrff sy'n cael eu harchwilio, nododd yr Archwilydd Cyffredinol awydd i weithio ochr yn ochr â sefydliadau wrth barchu'r angen am rywfaent o bellter ac annibyniaeth:

"We're weaving that into our audit programme far more than we have done previously. We're working very closely, for instance, with local authorities and health bodies to help them through the process of restart for their services, and helping with the risk assessment and development of their plans to move forward. We're getting a lot of positive feedback for that approach...when we're auditing we need to audit through the lens of organisations that have been through this period. It's easy, with the benefit of hindsight, always to criticise. Where we see things that need to be called out, we will do that, but, at the same time, we understand, just as all organisations have had to do, that at times during the pandemic exceptional measures needed to be taken. Some of what might have been

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 122

¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 116

¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 114

usual practice, in terms of risk management and governance, for a period had to be altered.”²⁰

Trawsnewid

22. Ar ôl sefydlu tîm canolog pwrpasol Rhaglen Newid yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod Archwilio Cymru wedi parhau i gymryd camau i wella'r ffordd y mae ei brosiectau newid yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi cynnwys:

“...dwyn ynghyd bortffolio o brosiectau newid â blaenoriaeth, sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid i gefnogi a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni a darparu adnoddau ar gyfer gweithredu, a meithrin ein sgiliau newid ar draws Archwilio Cymru.”²¹

23. Wrth roi sylw i'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at brosiectau gweithredol megis datblygu dau lwyfan TG newydd ar gyfer gwaith archwilio a system well o ran adnoddau staff a chofnodi amser. Ynghylch trawsnewid sefydliadol, dywedodd y canlynol wrth y Pwyllgor:

“We're engaging staff a great deal at the moment in trying to work through what our way of working will look like in the future, so getting back the best of what we have missed from the pre-pandemic days whilst keeping all that is good from this new remote way of working. That will fundamentally change our operational model. We're in the process, too, of developing a five-year strategic plan with the board and the organisation at the moment, which will signal no great fundamental change of direction for the organisation, but will, I hope, give a much clearer prioritisation of the key points of change and transformation that we need to undertake over the next few years.”²²

24. Mewn gohebiaeth ddilynol, rhoddodd Archwilio Cymru ragor o fanylion am y cynllun strategol pum mlynedd sydd i ddod, gan bwysleisio mai'r themâu strategol allweddol fydd “datblygu rhaglen archwilio fwy cyfannol ac effeithiol, gan wella effaith ein cyfathrebu a

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 159

²¹ **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 36**

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 156

sicrhau ein bod yn creu'r amgylchedd sefydliadol y gallwn ffynnu ynddo nawr ac yn y dyfodol". Disgwylir i'r strategaeth gael ei lansio ym mis Ebrill 2022.²³

25. Mae gan Archwilio Cymru brydlesi ar dri eiddo yng Nghaerdydd, Penllergaer ac Abergele. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi fel a ganlyn:

"Rydym yn edrych ar sut y bydd y newidiadau a wnaed i'r arferion gwaith, o anghenraid, yn 2020-21 yn newid y ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol ac mae'r cyfleoedd i wneud arbedion o ran teithio a llety ar flaen ein meddyliau".²⁴

26. Cyn y pandemig, nododd Archwilio Cymru darged arbedion gwerth o leiaf £1,000,000 sy'n gysylltiedig ag anghenion llety yn y dyfodol dros bum mlynedd.²⁵

27. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol fod y brydles yn swyddfa Caerdydd wedi'i hymestyn am flwyddyn tra trafodir ffyrdd newydd o weithio. Ychwanegodd y canlynol:

"We've got around 20 audit rooms that are used at client sites across Wales. It seems that some of those may no longer be available to us as things have changed, not just for us, but of course for our audited bodies. We're working through that at the moment, but it may actually be, that if those are unavailable, we might need more office accommodation in future. So, that's something that we're keeping under review as part of our estate strategy, and we'll be reflecting that in that five-year rolling programme that we include in our estimate."²⁶

Perfformiad

28. Roedd gan Archwilio Cymru 18 dangosydd perfformiad allweddol (DPA) yn ei Gynllun Blynyddol yn 2020-21.²⁷ Cyflawnodd 15 DPA, neu roedd yn agos at eu cyflawni.²⁸

²³ Llythyr gan Archwilio Cymru, 1 Tachwedd 2021

²⁴ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 49

²⁵ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 5

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2021, paragraff 204

²⁷ Cynllun Blynyddol 2020-21

²⁸ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalennau 20-22

29. Un DPA y mae angen ei wella'n sylweddol yw "Canran y sgorau cadarnhaol profiad y cyflogeion yn arolwg thematig blynyddol y staff". Y targed yw cyflawni o leiaf y 25 y cant uchaf o'r sgorau ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil, ond dim ond 2 o'r 10 thema a sgoriodd yn y 25 y cant uchaf.²⁹ Yn 2019-20, sgôr y dangosydd "Canran y sgoriau thematig cadarnhaol o'r arolwg staff blynyddol" oedd "angen gwelliant".³⁰

30. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod dau ddangosydd sy'n ymwneud â phrofiad y cyflogeion:

*"...one is about our engagement index, which is at 70 per cent, which is in the top decile of the 100 or so organisations that undertake the equivalent civil service people survey that we do. That's an extremely high level and speaks to a strong, healthy culture within the organisation. The other indicator is extremely demanding, and it's what I'd describe as a stretch target for us. To see us in the upper quartile of every one of the 10 themes within that survey is exceptionally demanding. So, I'm not surprised we're not there. I wouldn't anticipate that we would be there this year either, because that is an exceptionally high level of performance. But, for me and the board, I think we like that, because it means that we're always going to be pushing ourselves even when we improve."*³¹

31. Roedd angen gwella dau ddangosydd arall:

- Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd erbyn y terfyn amser statudol gofynnol (targed: 100 y cant, perfformiad: 98 y cant).
- Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo'r tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (targed: "o leiaf" 90 y cant, perfformiad: 86 y cant).³²

²⁹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 22

³⁰ Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 20

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2021, paragraff 130

³² Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalennau 20 a 22

32. O ran ansawdd archwilio, dywed yr Adroddiad Blynyddol fod 100 y cant o sampl o archwiliadau cyfrifon 2019-20 a phrosiectau archwilio perfformiad 2020 yn cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol.³³

33. Yn 2020, sefydlodd Archwilio Cymru Bwyllgor Ansawdd Archwilio newydd i roi cyngor a chymorth i sicrhau: bod y trefniadau monitro yn unol â'r safonau ansawdd rhyngwladol; bod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o ansawdd priodol; a bod ansawdd archwilio'r sefydliad yn gwella yn unol â'r arfer proffesiynol gorau. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys uwch staff ochr yn ochr ag Aelod Proffesiynol Annibynnol. Mae Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi Adroddiad Ansawdd newydd yn ddiweddarach yn 2021.³⁴

Llesiant staff

34. Ers dechrau'r pandemig, mae Archwilio Cymru wedi ailadrodd ei 'wireb', sef 'hunan, teulu, gwaith... yn y drefn honno' yn ei gynlluniau, ei adroddiadau a'i dystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Bumed Senedd".³⁵

35. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol wrth y Pwyllgor:

*"It was something that, at the very start of the pandemic, I felt very strongly about. We all were alarmed and anxious about the pandemic, especially in those early days, and it felt to me the right thing to do to try to signal to the organisation that I wanted work not to be a further form of stress and anxiety for them, but actually, as best we could make it, a form of stability and support for people. And so we started to use this maxim, and we continued to do so."*³⁶

36. Soniodd yr Archwilydd Cyffredinol am nifer o fentrau a ddatblygwyd i gefnogi staff, megis cyflwyno cod amser pwrpasol i gydweithwyr â chyfrifoldebau gofalu, rhaglen dysgu a datblygu, yn ogystal â gweithgareddau ymgysylltu a chymdeithasu.³⁷

37. Cynhaliwyd arolwg staff, ar sail Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, ym mis Hydref 2020. Dywed yr Adroddiad Blynyddol fod y canlyniadau ar "lefel thematig" yn cyd-fynd â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol ar y cyfan ac wedi parhau i fod yn weddol gryf, gan

³³ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 26](#)

³⁴ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 35](#)

³⁵ Y Pwyllgor Cyllid (Y Bumed Senedd), Cofnod y Trafodion, [2 Tachwedd 2020](#), paragraff 107

³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraff 127

³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraffau 128-129

arwain at 70 y cant fel sgôr y mynegrif ymgysylltu. Roedd y safbwyntiau ynghylch ymateb y sefydliad i COVID-19 yn “gadarnhaol dros ben”.³⁸

38. Er bod y sgôr ymgysylltu’n uwch na chanolrif Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, nododd Archwilio Cymru fod perfformiad mewn rhai sgoriau datganiadau unigol wedi dirywio’n sylweddol yn y meysydd a ganlyn, ac y bydd yn parhau i lywio blaenoriaethau cynllunio yn y dyfodol:

- Dysgu a datblygu
- Rheoli newid
- Cyflog a buddion
- Rheoli perfformiad³⁹

39. Mae offeryn rhyngweithiol Archwilio Cymru⁴⁰ yn rhoi mwy o fanylion am ganlyniadau’r arolwg Pobl, gan gynnwys gwybodaeth am gwestiynau unigol a ofynnir yn yr arolwg. O ran cwestiynau penodol ynghylch rheoli newid, dim ond 26 y cant o’r ymatebion a gytunodd y “caiff newidiadau eu rheoli’n dda yn fy sefydliad” (cynnydd o 2019: 21 y cant). O ran arweinyddiaeth, cytunodd llai na hanner (48 y cant) yr ymatebwyr fod ganddynt “ffydd ym mhenderfyniadau uwch-reolwyr fy sefydliad” (dirywiad o 2019: 50 y cant).

40. Wrth gael ei holi ar forâl staff, cydnabu’r Archwilydd Cyffredinol fod rheoli newid yn nodwedd arwyddocaol, ond nad dyna’r nodwedd bwysicaf ar gyfer morâl na pherfformiad staff.⁴¹ Pwysleisiodd y defnydd rheolaidd o arolygon pwls llai drwy gydol y pandemig i fesur sut y mae staff yn teimlo:

“What we have seen is, fundamentally, that morale has held up, but there’s undeniably been waves that have been affected more by the wider environment—the lockdown situation, schools closing et cetera.

The other key feature that has come from that has been around workload. Over the last six months especially, we’ve seen staff reporting very high and prolonged workloads, higher than they feel they can

³⁸ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 50](#)

³⁹ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 51](#)

⁴⁰ [Offeryn rhyngweithiol](#)

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraff 147

comfortably deal with. Ordinarily, we would see peaks and troughs in people's workloads—that's to be expected—but working in this way for a prolonged period through the pandemic has meant that those peaks of workload are higher and more sustained. And that goes back to the point I made earlier about the backlog of work that is flowing through the system."⁴²

Ailstrwythuro uwch reolwyr

41. Yn ystod 2020-2021, cwblhaodd Archwilio Cymru ymarfer ailstrwythuro uwch reolwyr, a recriwtiwyd ar gyfer y rolau newydd a ganlyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol⁴³

42. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol y sail resymegol y tu ôl i'w benderfyniad ailstrwythuro a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid sydd newydd ei sefydlu:

*"...I formally initiated that restructure process in February of 2020, and there were two main drivers for me at that time. No. 1, I thought there was scope for rationalisation of the team—it could be smaller than it had been. But perhaps the more significant one is the one that you've identified, namely that I wanted a senior leadership team that reflected the new priorities that I and the board had established for the organisation. So, perhaps the single most striking feature of those new priorities and ambitions for the organisation was the much greater focus that we now place on our external engagement, on increasing our impact, our visibility, as well as driving forward some positive internal change. So, it was those factors in particular that shaped my thinking about the need for that new post..."*⁴⁴

43. Er iddo fwriadu cwblhau'r broses ailstrwythuro ym mis Gorffennaf 2020, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at effaith y pandemig, gan ychwanegu ei fod yn teimlo'n briodol

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraffau 148-149

⁴³ **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 36**

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 141

cymryd mwy o amser dros y newid i roi parhad arweinyddiaeth i'r sefydliad yn ystod y misoedd cynnar. Cadarnhaodd yr ymunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid â'r sefydliad ddechrau blwyddyn galendr 2021.⁴⁵ Felly, ni ellir asesu effaith y rôl newydd hon nes i'r arolwg staff nesaf gael ei gynnal.

44. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid blaenorol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'r ymarfer ailstrwythuro yn talu amdano'i hun ymhen dwy flynedd ac yna'n rhoi gwerth £120,000 y flwyddyn mewn arbedion parhaus wedi hynny.⁴⁶ Mae'r cyfrifon yn dangos y rhyddhawyd bron hanner (£297,000) y ddarpariaeth gwerth £659,000 a wnaed yn 2019-20 ar gyfer y costau dileu swyddi posibl yn ystod y flwyddyn.

45. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y bu effaith gadarnhaol ar y dadansoddiad cost a budd a gynhaliwyd cyn yr ymarfer ailstrwythuro:

*"At the start of a process like that, clearly, we would have made provision for the maximum potential cost that we could foresee. In reality, we have not incurred the same level of cost that we could have done, but we have achieved the benefits in terms of having exactly the structure and the personnel in place that we wanted to see."*⁴⁷

Gwybodaeth ariannol

46. Cyflwynodd Archwilio Cymru Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2020-21 ym mis Ionawr 2021. Gwnaeth hyn ddarpariaeth ar gyfer gwerth £266,000 o incwm ychwanegol o ffioedd ar y sail bod Archwilio Cymru yn gwneud "gwaith archwilio ychwanegol sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau y daethpwyd ar eu traws mewn cyrff a archwilir".⁴⁸

47. £13,900,000 yw'r incwm o ffioedd archwilio (gan gynnwys gwaith ardystio grantiau, ond heb gynnwys incwm arall), sef £348,000 yn llai na'r hyn a oedd yn yr Amcangyfrif Atodol⁴⁹, "yn bennaf oherwydd yr aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â gweithio o bell yn Archwilio Cymru a'n cyrff archwiliedig".⁵⁰ Fodd bynnag, mae'r adroddiad alldro yn nodi y cyrhaeddwyd yr holl derfynau amser statudol.

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraffau 143 a 145

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid (Y Bumed Senedd), Cofnod y Trafodion, **21 Medi 2020**, paragraff 172

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 154

⁴⁸ **Amcangyfrif Atodol 2020-21**

⁴⁹ **Amcangyfrif Atodol 2020-21**

⁵⁰ **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 49**

48. Ni chadarnhaodd y sefyllfa wirioneddol y newid disgwyledig mewn symiau derbyniadwy a gwaith ar y gweill a adlewyrchir yn y gyllideb. Nododd Archwilio Cymru ostyngiad £866,000, pan oedd wedi rhagweld cynnydd £500,000. Arweiniodd hyn at amrywiant £906,000, wrth gymharu'r alldro â'r gyllideb.

49. £21,600,000 oedd yr incwm refeniw gros yn 2020-21, sef £668,000 yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd (roedd gwariant cyfalaf £1,000 yn is).⁵¹

50. Roedd costau teithio a chynhaliaeth £535,000 yn is gan nad oedd modd i'r rhan fwyaf o staff deithio yn ystod y pandemig. Bu tanwariant £78,000 mewn costau llety, yn gysylltiedig â gweithio gartref, a gwariwyd £29,000 ychwanegol ar TG i hwyluso gweithio o bell. Adroddir am £160,000 arall o danwariant sy'n gysylltiedig â newidiadau i arferion gwaith oherwydd y pandemig ond ni nodir y manylion. Adroddir am arbediad £75,000 yn erbyn cyfieithu dogfennau oherwydd "newidiadau i'r ffordd yr ydym yn adrodd ein gwaith".⁵²

51. Wrth ymdrin ag arbedion yn y dyfodol oherwydd ffyrdd newydd o weithio, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol y canlynol:

*"Into 2021-22, we've also got an ongoing reduction in travel costs, and we'd anticipate there's real potential to keep those lower in future than they were at pre-pandemic levels."*⁵³

52. Trafodir cynigion i leihau costau teithio hefyd ym Mhennod 4 (Adolygiad gwerth am arian: Cynllun teithio).

53. Roedd costau sy'n gysylltiedig â chwmnïau sector preifat (£684,000) £86,000 yn fwy na'r gyllideb oherwydd gweithio o bell.⁵⁴ Mae Archwilio Cymru wedi bod yn newid gwaith a oedd yn arfer cael ei wneud gan gwmnïau sector preifat i'w wneud yn fewnol. Disgwylwyd cwblhau'r ymarfer hwn eleni ac ni nodwyd y math hwn o wariant ar gyfer 2021-22.⁵⁵

⁵¹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalennau 105-106

⁵² Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalennau 105-106

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2021, paragraff 204

⁵⁴ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 105

⁵⁵ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 6

Gwnaed tua 10 y cant o'r gwaith archwilio gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat yn 2019-20 (am £810,000).⁵⁶

54. Ar y mater hwn, esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y canlynol:

*"We brought some significant work in: the health boards, local government bodies and community council work as well, for 2020-21 audits. We did that, obviously, with board approval. It was the best approach cost wise. So, the work is being done currently in-house, but that's something that we keep under review."*⁵⁷

55. O ran ei wariant cyfalaf, buddsoddodd Archwilo Cymru £229,000 o £230,000 a nodwyd yn Amcangyfrif 2020-21 i ddatblygu systemau rheoli archwilio newydd, offer TG newydd (gan gynnwys i helpu staff i weithio'n effeithlon gartref) a gwaith uwchraddio hanfodol ar gyfer ei swyddfeydd.⁵⁸

Perfformiad Bwrdd SAC

56. Fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod y Bwrdd "yn fodlon ar ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael, er bod lle i wella ei [h]ehangder a'i [h]amseroldeb".⁵⁹

57. Cwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd a thrafododd y canlyniadau ym mis Mawrth 2021. Roedd yn mesur ei hun rhwng "gweddol effeithiol ac effeithiol iawn ar draws mwyafrif yr agweddau ar yr asesiad", ond hefyd yn "weddol aneffeithiol" ar gyfer dau o'r datganiadau profiadau Aelod:

- mae gan y Bwrdd ddealltwriaeth dda o berfformiad y sefydliad o'i gymharu â chyrff eraill fel y bo'n briodol;
- mae gan y Bwrdd berthnasgedd a ddiffinnir yn glir â rhanddeiliaid.⁶⁰

58. Cytunodd y Bwrdd i ddatblygu cynllun gweithredu ddechrau 2021-22 a chomisiynu adolygiad annibynnol o'i effeithiolrwydd yn ddiweddarach eleni (cwblhawyd yr un

⁵⁶ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalennau 42 a 97

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2021, paragraff 206

⁵⁸ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 49

⁵⁹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 70

⁶⁰ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 71

blaenorol yn 2016).⁶¹ Yn flaenorol, ceisiodd y Bwrdd gomisiynu adolygiad annibynnol yn 2019-20 ond ni "ddenodd yr ymarfer caffael ddigon o ddiddordeb i'r Bwrdd ddyfarnu contract".⁶²

59. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod gwerthusiad annibynnol y Bwrdd bron â'i gwblhau, gan nodi bod yr asesiad cyffredinol wedi bod yn gadarnhaol iawn:

*"...it describes us as an effective board with a number of clear areas of strength, but also recognising that we are very keen on continuous improvement and so it also highlights areas for continuing some of the development work that we're doing, but also some areas for further development. And as a result of that, we will establish a prioritised set of actions, following on from the recommendations that have been given to us."*⁶³

60. Gan fyfyrir ar y 12 mis diwethaf, siaradodd Cadeirydd y Bwrdd am ffocws y Bwrdd ar lesiant staff, gweithio'n effeithiol mewn gofod rhithwir a darparu'r rhaglen waith. Tynnodd sylw hefyd at y Tîm Arwain Gweithredol sydd newydd ei sefydlu a'r gwaith sy'n cael ei wneud ganddi hi, ond hefyd gan y bwrdd yn ehangach, o ran meithrin perthnasoedd, ag unigolion ac fel perthynas arwain a gweithio ar y cyd, rhwng y bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol.⁶⁴

61. Pan gafodd ei holi a yw llywodraethu ynghylch yr uwch strwythur newydd wedi newid, esboniodd y Cadeirydd fod cylch gorchwyl y Tîm Arwain Gweithredol newydd wedi'i ddiweddarau, yn ogystal â'r rhestr ddirprwyo y mae'r Bwrdd yn ei goruchwyllo. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod, yn ei farn ef, bellach yn hollol glir lle y mae atebolrwydd.⁶⁵ Aeth ymlaen i esbonio bod y Tîm Arwain Gweithredol yn cael mewnbwn staff:

"...my executive leadership team compromises myself and those three executive directors, but we have established a staff panel of seven individuals, drawn from across the organisation, of all different grades, who shadow our work, who are privy to all of the papers and discussions that we have, join us in our formal meetings, and have direct input to

⁶¹ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 71](#)

⁶² [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 62](#)

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraffau 185-186

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraffau 167-169

⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [29 Medi 2021](#), paragraffau 173-174

that. So, it's early days—we've only had that in place for two or three months—but the signs are positive so far."⁶⁶

Barn y Pwyllgor

62. Mae'r Pwyllgor yn canmol gwaith caled ac ymrwymiad staff Archwilio Cymru drwy gydol y pandemig, gan fodloni 98 y cant o'r terfynau amser statudol a chwblhau mwy na 90 y cant o gynhyrchion archwilio eraill er gwaethaf heriau ac aneffeithlonrwydd gweithio o bell. Wrth gydnabod y cyflawniad hwn, cydnabyddir gofynion parhaus mynd i'r afael ag ôl-groniad o waith cynllunio a pharatoi sy'n ofynnol er mwyn cyflawni rhaglen archwilio 2020-21. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r newid o waith arferion da tuag at brosiect gwersi COVID yn ystod y pandemig ac mae'n awyddus i gael gwybod canlyniadau'r gwaith hwn.

63. Er bod rhai newidiadau i arferion gwaith wedi sicrhau buddion, mae'n amlwg ei bod wedi bod yn anodd cyflawni rhai agweddau ar waith archwilio o bell. Hoffai'r Pwyllgor wybod rhagor am sut y bydd y cyfyngiadau hyn a'r buddion hyn yn llywio model cyflawni Archwilio Cymru yn y dyfodol yn sgil y pandemig ac mae'n cydnabod yr ymgysylltiad presennol â staff i ystyried ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r gwaith sydd ar droed i ddatblygu cynllun strategol pum mlynedd a chreu gweledigaeth ar gyfer Archwilio Cymru.

64. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sgôr gref y mynegrif ymgysylltu â chyflogeion, sef 70 y cant. Mae'r arolwg wedi'i gyfochri ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn nodi bod y dangosydd perfformiad allweddol sy'n ymwneud â phrofiad y cyflogeion yn darged heriol yn fwriadol – mae angen ei wella'n sylweddol o hyd. Dylai targedau roi golwg realistig o'r hyn y mae Archwilio Cymru yn ceisio'i gyflawni ac, fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn disgwyl gwelliannau yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi rhai o'r sgorau unigol is yn yr arolwg ac yn disgwyl y bydd gweithgarwch yn mynd i'r afael â'r rhain.

65. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi dull Archwilio Cymru o flaenoriaethu llesiant staff yn ystod y pandemig ac yn croesawu'r mentrau a roddwyd ar waith i leihau straen a gorbryder, sicrhau ymgysylltiad ystyrlon ac ymdrin â phryderon cyflogeion. Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod safbwyntiau ar ymateb Archwilio Cymru i COVID-19 yn gadarnhaol yn yr arolwg staff diwethaf, ond mae hefyd yn pryderu bod canlyniadau'r arolygon pwls diweddarach yn nodi llwythi gwaith trwm ac estynedig.

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 174

66. Mae'r Pwyllgor yn nodi sail resymegol yr Archwilydd Cyffredinol dros ailstrwythuro ei Dîm Arwain Gweithredol ac yn cydnabod bod cost y gwaith ailstrwythuro'n is na'r hyn a ddisgwyliwyd i ddechrau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r penderfyniad i ohirio'r gwaith ailstrwythuro llawn am chwe mis i roi parhad arweinyddiaeth yn ystod dechrau'r pandemig ac mae'n edrych ymlaen at weld effaith a dylanwad y rôl Cyfathrebu a Newid newydd ar y sefydliad yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r effaith y gallai newid mor sylweddol yn y sefydliad ei chael ar forâl staff, o gofio rhai o ganlyniadau'r arolwg staff a dygyfor y pandemig.

67. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r diweddariadau a wnaed i'r cylch gorchwyl a'r rhestr ddirprwyo yn dilyn yr ymarfer ailstrwythuro uwch reolwyr, a byddai'n croesawu mwy o wybodaeth am y panel staff a sefydlwyd i gynghori'r Archwilydd Cyffredinol a'i Dîm Arwain Gweithredol.

68. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Bwrdd i ddilyn arferion da drwy gomisiynu adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd annibynnol y Bwrdd yn ychwanegol at ei hunanasesiad, ar ôl peidio â denu digon o ddiddordeb o'r blaen i ddyfarnu'r contract yn 2019-20. Mae'n braf clywed bod yr asesiad mewnol cyffredinol wedi bod yn gadarnhaol iawn ac y bydd cynllun gweithredu'n cael ei sefydlu pan fydd argymhellion yr adolygiad allanol wedi'u cwblhau.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhannu rhagor o fanylion am y datblygiadau arloesol a'r ffyrdd newydd o weithio a fydd yn parhau ar ôl y pandemig.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariadau wrth i'w gynlluniau strategol ddatblygu ac yn rhannu ei gynllun strategol pum mlynedd pan fydd wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn egluro sut ac erbyn pa ddyddiad y mae am gyflawni ei ddangosydd perfformiad allweddol sy'n ymwneud â phrofiad y cyflogeion, sef "Canran sgorau profiad y cyflogeion sy'n gadarnhaol yn arolwg thematig blynyddol y staff" ac yn rhoi rhagor o wybodaeth am y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd yn y maes hwn.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn monitro ac yn cymryd camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â phwysau llwyth gwaith gormodol, o gofio'r ôl-groniad o waith a'r angen i barhau i weithio o bell, ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi dadansoddiad cost a budd wedi'i ddiweddarau o'r ymarfer ailstrwythuro uwch reolwyr.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi rhagor o fanylion am y panel staff a sefydlwyd i gynorthwyo'r Tîm Arwain Gweithredol, megis ei gylch gorchwyl, ei nodau a'i amcanion, ac unrhyw allbwn.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhannu adroddiad adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd allanol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru pan fydd wedi'i gwblhau a byddai'n croesawu diweddariad ar y pwyntiau gweithredu dilynol.

3. Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

69. Mae'r Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad yn crynhoi prif ganfyddiadau archwilwyr SAC, sef RSM UK Audit LLP ('RSM'), mewn cysylltiad â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Archwilio Cymru mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn ofyniad o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf.⁶⁷

70. Mae RSM wedi darparu barn archwilio ddiamod o gyfrifon SAC.⁶⁸

71. Mae'r adroddiad yn trafod y risgiau a ganlyn a nododd RSM yn ei waith cynllunio ar gyfer yr archwiliad:

- Cydnabyddiaeth refeniw, gwaith ar y gweill ac incwm gohiriedig;
- Rheolwyr yn gwrthwneud y rheolaethau mewnol;
- Risg i enw da;
- Newidiadau yn yr adroddiad archwilio.⁶⁹

72. Mae'r adroddiad yn amlinellu dau fater arall a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Mae un mater yn ymwneud ag incwm gwerth £34,000 o'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a gafodd SAC ar gyfer llond llaw o contractwyr, y mae RSM yn nodi nad oedd yn ei ddisgwyl o gofio mai endid sector cyhoeddus yw SAC.

73. Mae'r mater arall yn ymwneud â chworwm Bwrdd SAC, gyda'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

"...at the May 2020 board meeting, 4 non-executive directors were in attendance, plus 3 executive directors and the Auditor General. Therefore there appears to have been an equal number of executive and non-

⁶⁷ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

⁶⁸ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 107

⁶⁹ RSM – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, tudalen 7

*executive directors in attendance, which appears in contrary to the Public Audit (Wales) Act 2013...*⁷⁰

74. Mae'r Ddeddf yn nodi'r canlynol:

*"Rhaid i'r rheolau ddarparu na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol."*⁷¹

75. Mae'r adroddiad yn nodi y gofynnodd y Cadeirydd am gyngor cyfreithiol a ddaeth i'r casgliad bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau anweithredol fod yn bresennol, yn hytrach na bod yn bresennol ac yn pleidleisio. Yn y dyfodol, mae'r cyngor yn argymhell bod SAC yn diweddarau'r gweithdrefnau i ofyn i un neu fwy o'r aelodau o blith y cyflogaion beidio â mynd i bob cyfarfod os oes angen.⁷²

76. Esboniodd y Cadeirydd nad oedd modd i aelod anweithredol fynd i gyfarfod eithriadol er mwyn cael gwybod am ymateb Archwilio Cymru i bandemig COVID-19 oherwydd salwch difrifol a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor na wnaed penderfyniadau ffurfiol yn y cyfarfod. Aeth ymlaen fel a ganlyn:

*"...it's not something that we can always promise to avoid because sometimes, particularly if a non-executive member is unable to be there for unavoidable reasons, we do have to look through the agenda and the items and look at what items are for noting and what items are for decision. We do try and adjust the agenda around unavoidable absence, if you like. But it's the need to have the non-executive members in the majority at a meeting, and so we operate that by enabling one of the employee members to stand down, but be in attendance at the meeting. We've had a change to our terms of reference to reflect that."*⁷³

77. Trafododd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd sylwadau blaenorol gan SAC ynghylch y ddarpariaeth cworwm yn y Ddeddf, sy'n broblemus i SAC gan fod mwyafrif anweithredol o un yn golygu y gall absenoldeb aelod anweithredol olygu nad yw'r Bwrdd yn gwneud cworwm. Bryd hynny, tynnodd SAC sylw ei bod wedi cael cyngor cyfreithiol annibynnol yn

⁷⁰ RSM – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, tudalen 7

⁷¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 28(3)

⁷² RSM – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, tudalen 7

⁷³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2021, paragraff 197

cadarnhau bod angen tynnu aelod o blith y cyflogeion o gyfarfod nad yw'n gwneud cworwm er mwyn atal penderfyniadau rhag bod yn annilys.⁷⁴

78. Yn ei adroddiad, sef 'Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013', daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod mwyafrif anweithredol yn gwbl briodol ond credai fod gofyn i aelod a etholir o blith y cyflogeion adael cyfarfod Bwrdd nad yw'n gwneud cworwm er mwyn cynnal mwyafrif anweithredol yn rhy gaeth. Er mwyn datrys y materion, cynigiodd ac y Pwyllgor blaenorol ddiwygiad i'r Ddeddf, ac ymgynghori arno, i alluogi unrhyw aelod gweithredol i aros yn y cyfarfod ond i beidio â phleidleisio er mwyn bodloni'r gofyniad cworwm.⁷⁵

Barn y Pwyllgor

79. Wrth nodi'r sicrwydd na wnaed penderfyniadau ffurfiol yn y cyfarfod Bwrdd dan sylw, nid yw'r Pwyllgor yn eglur pam y dilynwyd y dull hwn, yn enwedig gan fod tystiolaeth flaenorol yn awgrymu bod SAC wedi cael cyngor yn cadarnhau bod angen tynnu aelodau o blith y cyflogeion o gyfarfod nad yw'n gwneud cworwm er mwyn ei wneud.

80. Yn fuan, bydd y Pwyllgor yn trafod gwaith Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft, gan gynnwys cworwm SAC.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell rhoi mesurau ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad i gael mwyafrif o aelodau anweithredol ym mhob cyfarfod Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ac y caiff y rhain eu hamlinellu i'r Pwyllgor.

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

⁷⁵ Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

4. Cynllun Blynyddol 2021-22 ac Adroddiad Interim 2021-22

81. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC gyhoeddi Cynllun Blynyddol ac o leiaf un Adroddiad Interim bob blwyddyn.⁷⁶

82. Mae Cynllun Blynyddol 2021-22⁷⁷ yn nodi'r rhaglenni gwaith yn ystod y flwyddyn a chafodd ei osod ar 30 Mawrth 2021.

83. Mae'r Adroddiad Interim yn darparu asesiad o'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2021-22, ac yn rhoi gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol. Gosodwyd yr Adroddiad Interim gerbron y Senedd ar 27 Hydref 2021.⁷⁸

Cynllun Blynyddol 2021-22

84. Mae'r Cynllun Blynyddol yn pwysleisio bod adnoddau Archwilio Cymru wedi cael eu "hymestyn" a bod ffocws gwaith Archwilio Cymru yn 2021-22 yn parhau i fod ar "gyflawni ein cyfrifoldebau [s]tatudol mewn ffyrdd sy'n sensitif i'r pwysau sydd ar wasanaethau", gyda hyblygrwydd wedi'i ymgorffori yn y rhaglen.⁷⁹

85. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a bwriad Archwilio Cymru i gynnal adolygiad o DPA yn 2021 i lywio Cynllun Blynyddol 2022-23 a gweledigaeth strategol bum mlynedd. Yn fras, mae DPA yn mesur yr un meysydd â 2020-21, gyda newidiadau i rai targedau (er enghraifft, mae gan DPA sy'n gysylltiedig â phresenoldeb ar-lein dargedau mwy).⁸⁰

86. Mae llawer o waith Archwilio Cymru sydd eisoes ar y gweill yn ymwneud â gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19, ond mae elfennau amrywiol sy'n gysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys gwaith ar gaffael cyfarpar diogelu personol a'r

⁷⁶ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

⁷⁷ Cynllun Blynyddol 2021-22

⁷⁸ Adroddiad Interim, Hydref 2021

⁷⁹ Cynllun Blynyddol 2021-22, tudalennau 6-7

⁸⁰ Cynllun Blynyddol 2021-22, tudalen 26

rhaglen frechu. Mae gwaith newydd i'w wneud yn 2021-22 yn cynnwys gwaith ar yr ymateb i COVID-19 a'r adferiad.⁸¹

87. Mae'r Cynllun Blynyddol hefyd yn tynnu sylw at waith arferion da Archwilio Cymru, y mae ei ffocws wedi newid i **brosiect gwersi COVID** Archwilio Cymru.⁸²

Adroddiad Interim

88. Mae'r Adroddiad Interim yn nodi na fu "angen gwyrho'n sylweddol oddi wrth y rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun ar gyfer 2021-22". Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

*"Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i darfu ar ein gwaith archwilio ar safleoedd, ond rydym wedi gallu dygymod â'r sefyllfa trwy fabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg ar draws timau yn ogystal ag estyn rhai o'n terfynau amser arfaethedig ar gyfer cwblhau."*⁸³

89. Mae'r Adroddiad Interim yn nodi bod "rhaglen gyffredinol [Archwilio Cymru] o waith archwilio'n dal i fod ar y trywydd iawn".⁸⁴

90. O ran cyflawni DPA, ar 30 Medi, cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflwynwyd erbyn y terfyn amser statudol gofynnol oedd 98 y cant yn erbyn targed 100 y cant.⁸⁵

91. Wrth ymdrin â'r targed cyflawni 98 y cant o gynhyrchion archwilio erbyn y terfyn amser statudol, soniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio fod y targed yn un heriol iawn, yn enwedig o gofio'r ffyrdd presennol o weithio. Cadarnhaodd fod un archwiliad nad oedd wedi bodloni'r terfyn amser statudol, gan ychwanegu'r canlynol:

"...we chose not to issue the certificate, and that was because there was other work ongoing that we wanted to see through to the end before we issued it... it wasn't that work wasn't done, it was that we took a conscious decision. So, I have to say, I'm really proud of the staff, I think, in very

⁸¹ [Cynllun Blynyddol 2021-22, tudalen 32](#)

⁸² [Cynllun Blynyddol 2021-22, tudalen 35](#)

⁸³ [Adroddiad Interim, Hydref 2021, tudalennau 4-5](#)

⁸⁴ [Adroddiad Interim, Hydref 2021, tudalennau 7](#)

⁸⁵ [Adroddiad Interim, Hydref 2021, tudalen 19](#)

*difficult circumstances there, meeting all of these deadlines, and that's really quite incredible.*⁸⁶

Barn y Pwyllgor

92. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ymroddiad a dyfalbarhad staff Archwilio Cymru i gefnogi'r sefydliad yn llwyddiannus drwy bandemig parhaus COVID-19, a bwysleisiwyd gan y cynnydd yn ystod y flwyddyn wrth gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Blynyddol.

⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraffau 127-128

5. Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

93. Cafodd yr Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ("yr Amcangyfrif")⁸⁷ ei baratoi ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC a'i osod gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021, yn unol ag adran 20(1) o'r Ddeddf.⁸⁸

94. O dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC osod eu hamcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau gerbron y Senedd erbyn 1 Tachwedd fan bellaf. Mae Rheol Sefydlog 20.22 yn datgan y canlynol:

*"Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18.10(i) ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt."*⁸⁹

Cyd-destun

95. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol Ddatganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (CGC) i'w hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol:

Datganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol

- Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.

⁸⁷ Rhan 1 Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

⁸⁸ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

⁸⁹ Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 20.22

- Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.
- Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.
- Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintoli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

96. Ym mis Gorffennaf 2021, cytunodd y Pwyllgor y dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol barhau i ddilyn y Datganiad presennol o Egwyddorion⁹⁰ wrth baratoi eu dogfennau cyllidebol.

97. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog") at y Pwyllgor yn nodi gwybodaeth i ategu gwaith blaengynllunio ariannol Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth hon ar 29 Medi 2021 a'i dosbarthu i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.⁹¹

Trosolwg o'r Amcangyfrif

98. Ar gais y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn dilyn ei waith craffu ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2020-21 a'i addasu⁹², cyflwynir yr Amcangyfrif mewn dwy ran:

- Rhan 1 - Cwmpas y gyllideb
- Rhan 2 - Gwybodaeth ategol

99. Mae Archwilio Cymru yn ceisio cynyddu ei alwad ar CGC 3.1 y cant neu £250,000 yn 2022-23 (mae hyn yn cynnwys cynnydd £290,000 i refeniw a gostyngiad £40,000 i gyfalaf).⁹³

⁹⁰ [Datganiad o Egwyddorion, Gorffennaf 2021](#)

⁹¹ [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Awst 2021](#)

⁹² [Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid - Amcangyfrif wedi'i addasu o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a Chynllun Ffioedd 2020-21, 15 Ionawr 2020](#)

⁹³ [Rhan 1 Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 4](#)

100. Mae Archwilio Cymru yn gofyn am £8,300,000 o adnoddau refeniw a £310,000 o gyfalaf. Yn £8,600,000, 5.6 y cant yw'r cynnydd hwn o'i gymharu â'r Amcangyfrif ar gyfer 2021-22 (£8,100,000). Y gwahaniaeth rhwng y ffigur hwn a'r hyn a nodir yn yr Amcangyfrif, sef 3.1 y cant, yw'r cynnydd yng nghyllid y Fenter Twyll Genedlaethol (ar y cyd â chynnydd £80,000 sy'n gysylltiedig â chynlluniau peilot y Fenter Twyll Genedlaethol) £210,000 y mae Archwilio Cymru yn ei drin ar wahân i'w geisiadau adnoddau eraill.⁹⁴ Darperir y cyllid hwn i alluogi cyfranogwyr gorfodol a gwirfoddol yn y Fenter Twyll Genedlaethol wneud hynny'n rhad ac am ddim. Yn flaenorol, mae Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd wedi bod o blaid ariannu'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ganolog yn y modd hwn, sy'n golygu bod y gost yn cynyddu bob yn ail flwyddyn pan ymgwymerir â gweithgareddau penodol.⁹⁵

101. Wrth roi sylw i'r ffordd y mae Archwilio Cymru wedi ystyried y pwysau cyllido yn y sector cyhoeddus ehangach wrth baratoi'r Amcangyfrif, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at yr angen i gydbwysu nifer o bwysau cystadleuol:

*"...like any organisation, we face our own inflationary pressures, but we're also constantly striving to work more efficiently. And as Audit Wales, given our remit, we take that particularly seriously. We are very conscious, as the Minister's letter says, of the pressure that audited bodies are under, and the wider state of the public purse, and that's why, for several years now, we've managed to keep our fees pretty static and to minimise our draw on the related fund."*⁹⁶

102. Pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol y targedau arbedion heriol iawn a'r angen i roi'r sicrwydd angenrheidiol ar ddefnyddio arian cyhoeddus, gyda chyllid a risg gysylltiedig i'r sector cyhoeddus yn cynyddu'n sylweddol drwy'r pandemig.⁹⁷

103. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd y cyllid ychwanegol, sef £80,000, y gofynnir amdano ar gyfer cynlluniau peilot y Fenter Twyll Genedlaethol yn galluogi cyflwyno rhywfaint o welliant sy'n benodol i Gymru:

"Specifically, we're looking to enable public bodies to undertake bank verifications and trading status checks on organisations that have applied

⁹⁴ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Arddangosyn 1

⁹⁵ Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2020, tudalen 47

⁹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Tachwedd 2021, paragraff 12

⁹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Tachwedd 2021, paragraff 13

for COVID business support funding. Pilot work of that elsewhere in the UK has identified some very significant volumes of error and fraudulent applications. So, within the £80,000, that would include a one-off cost of £35,000, but then an ongoing annual request of £45,000 to keep that element of the work going on an annual basis.”⁹⁸

104. Y gofyniad arian parod net o CGC yw £9,100,000, cynnydd 8.5 y cant o'i gymharu â 2021-22⁹⁹ (£8,400,000), sy'n rhoi cyfrif am addasiad nad yw'n arian parod gwerth £280,000 (negatif) ar gyfer dibrisiant ac addasiad nad yw'n arian parod ar gyfer "symudiadau mewn cyfalaf gweithio" gwerth £750,000 (positif). Mae Archwilio Cymru wedi sôn am y symudiad hwn yn y gorffennol, gan nodi £500,000 yn gysylltiedig â chroniadau diwedd blwyddyn yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2020-21¹⁰⁰, ac awgrymu ei bod yn "anodd iawn rhagweld" hyn. Er bod costau dibrisiant wedi bod yn gymharol sefydlog o'u cymharu â rhai blynyddoedd blaenorol, amcangyfrifir y bydd symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn cynyddu £250,000 o'i gymharu â chyfalaf gweithio 2021-22.¹⁰¹

105. Esboniodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn arbennig o anodd amcangyfrif symudiadau mewn cyfalaf gweithio, felly mae Archwilio Cymru fel arfer yn caniatáu addasiad nad yw'n arian parod gwerth £500,000. Ymhelaethodd ar y rhesymau dros y cynnydd i £750,000 yn 2022-23:

"For next year, we've increased that by £250,000 in anticipation of the supplementary estimate for the T&S buy-out. So, although we would need the additional resource cover in the current financial year, we won't need the cash until next year, and we won't need as much because we've already got, within the estimate, budget for, effectively, one year's payment of the travel allowance. So, if everybody took up the buy-out, then we would need double. We'd assumed the buy-out wouldn't be as much as that.”¹⁰²

106. Mae tua 35 y cant o gostau cynnal Archwilio Cymru yn cael eu talu o CGC, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu o ffioedd. Mae'r rhan fwyaf o'r costau cynnal hynny'n ymwneud

⁹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 25

⁹⁹ **Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022**

¹⁰⁰ **Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2021, tudalen 33**

¹⁰¹ **Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022**

¹⁰² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraffau 22-23

â staff. Mae Archwilio Cymru yn amcangyfrif mai £15,100,000 fydd incwm o ffioedd yn 2022-23 – cynnydd £621,000 (4.3 y cant) o'i gymharu â 2021-22.¹⁰³ Felly, amcangyfrifir mai £23,400,000 yw cyfanswm y treuliau refeniw – cynnydd cyffredinol £1,100,000 (5 y cant) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (neu 4.8 y cant gan gynnwys cyfalaf).¹⁰⁴

107. Mae'r cynnydd mwyaf mewn gwariant yn ymwneud â staff, gan gynnwys £718,000 (3.9 y cant) ar gyfer costau staff a £268,000 ar gyfer staff dan gontract tymor byr (86.2 y cant). Ni chynhwysir costau ar gyfer cwmnïau sector preifat, y gwaith y disgwyliwyd ei wneud yn fewnol yn 2020-21, gyda gostyngiad £598,000 mewn costau yn 2021-22.¹⁰⁵ Disgwylir i ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol hefyd godi £152,000 (68.5 y cant).¹⁰⁶

108. Pan ofynnwyd iddo am ragor o wybodaeth am y cynnydd cyffredinol 3.9 y cant mewn costau staff, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at gynnydd cymharol ddarvoudus 2 y cant ar gyfer chwyddiant cyflogau a phrisiau; cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol; adnodd gwerth £200,000 yn gysylltiedig â newid mewn cyfraith achosion; yn ogystal â'r angen i gynyddu'r capasiti i ymdrin â safonau archwilio newydd a disgwyliadau ansawdd.¹⁰⁷

109. Gan nad yw staff Archwilio Cymru yn teithio ar hyn o bryd, nododd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r ffordd symlaf o ymdrin â materion capasiti yn y tymor byr fydd defnyddio contractwyr, gyda'r posibilrwydd i wneud newidiadau i'r strwythur staffio parhaol os yw'n dod yn batrwm rheolaidd.¹⁰⁸

110. Mae'r Amcangyfrif yn amlinellu "targedau arbedion heriol o reoli swyddi gwag staff a meysydd gwariant eraill gan gynnwys ein costau teithio".¹⁰⁹ Mae Amcangyfrif 2022-23 yn

¹⁰³ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2022

¹⁰⁴ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 9

¹⁰⁵ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2022, tudalennau 6 a 17

¹⁰⁶ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 22

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Tachwedd 2021, paragraff 16

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Tachwedd 2021, paragraff 19

¹⁰⁹ Rhan 1 Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 5

cynnwys £939,000 mewn arbedion o drosiant staff disgwylidig a £500,000 o ostyngiadau costau eraill, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth.¹¹⁰

Defnyddio arian Cronfa Gyfunol Cymru

111. Mae'r Amcangyfrif yn gofyn am gynnydd £290,000 (3.7 y cant) i'r adnodd refeniw a £210,000 (2.7 y cant) ychwanegol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol, o'i gymharu â 2021-22.¹¹¹

112. Mae Archwilio Cymru yn nodi meysydd penodol o gyllid CGC yn 2022-23, gan gynnwys:

- **Gwaith archwilio wedi'i ariannu o CGC (£4,000,000):** mae hyn yn cynnwys astudiaethau llywodraeth leol cenedlaethol yn ogystal â "gwaith arall sy'n gysylltiedig ag archwilio". Mae cynnydd yn y maes hwn yn 2022-23 yn gysylltiedig â chynnydd cyflogau a phrisiau.
- **Cyfraniad CGC at gostau cynnal (£2,800,000):** mae'r rhain yn gostau i Archwilio Cymru nad ydynt yn cael eu trosglwyddo i gyrff archwiliedig drwy ffioedd. Gofynnir am gynnydd £15,000, yn unol â chynnydd cyflogau posibl.
- Cyllid CGC er budd ehangach y sector cyhoeddus, gan gynnwys rhaglenni amrywiol:
 - **Datblygu sgiliau ariannol Cymru gyfan (£580,000):** Rhaglen graddedigion a phrentisiaid Archwilio Cymru. Ar hyn o bryd, mae Archwilio Cymru yn cyflogi tua 60 o raddedigion a hyfforddeion. Mae cyllid CGC yn darparu ar gyfer cyfleoedd secondiad, yn gwella amrywiaeth ac yn cefnogi costau hyfforddi.
 - **Cyfnewidfa Arfer Da (£550,000):** mae hyn yn cefnogi rhannu arferion gorau ar draws cyrff cyhoeddus, gan gynnwys drwy adnoddau ar-lein, hwyluso a gwersi gweminar tra bo digwyddiadau ar y safle yn parhau i fod wedi'u hatal.

¹¹⁰ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 22

¹¹¹ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 4

- **Y Fenter Twyll Genedlaethol (£310,000):** cyllid canolog y cynllun i alluogi cyfranogiad i bob corff cyhoeddus yng Nghymru heb gost i'r cyrff hynny. Eleni, mae hynny'n cynnwys defnyddio cynhyrchion ychwanegol, sy'n golygu bod cost ychwanegol gwerth £80,000 yn 2022-23, yn ychwanegol at y cynnydd chwemisol arferol, sef £130,000. Disgwylir i'r elfennau ychwanegol hyn gael eu treialu am flwyddyn ac yna eu hadolygu.¹¹²

Cost uwch gwaith archwilio

113. Mae Archwilio Cymru yn gofyn am £74,000 ar gyfer "cost uwch gwaith archwilio".¹¹³ Nid yw'r Amcangyfrif yn nodi beth y bydd hyn yn ei ariannu, ond mae'n nodi nifer o feysydd a allai ddylanwadu ar y cynnydd, yn enwedig o ran gwaith archwilio a ariennir o CGC.

114. Gan ymhelaethu ar y £74,000 y gofynnwyd amdano, cyfeiriodd y Cadeirydd at darged arbedion y Bwrdd, sef dros £1,400,000 yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys tua £940,000 o drosiant staff disgwyliedig a £500,000 mewn gostyngiadau costau eraill. Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

*"So, when we think about the £74,000 figure, that reflects the proportion that's funded, through WCF, of our audit work, covering the rising cost of audit work—the rising staff costs that we face—that we can't meet, even after meeting those substantial savings targets... for many years, we've held our fees static. But, of course, the highest proportion of our expenditure is going on our staff, so there's a limit, really, in terms of our ability to absorb inflationary costs by cutting elsewhere. So, the board's very clear that, unfortunately, the inflationary pressures we face have to be reflected in the request to WCF as well as, proportionately, in fees to audited bodies, whilst we're also doing all that we can to absorb additional costs internally as well."*¹¹⁴

¹¹² [Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalennau 11-14](#)

¹¹³ [Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 4](#)

¹¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [10 Tachwedd 2021](#), paragraff 34

Ansawdd archwilio

115. Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod adolygiadau diweddar ledled y DU â goblygiadau a allai fod yn bellgyrhaeddol i'r proffesiwn archwilio. Mae rheoleiddwyr wedi cyhoeddi safonau archwilio ac ansawdd "newydd a chymhleth" i'w gweithredu erbyn 2023. Mae Archwilio Cymru hefyd yn mabwysiadu safonau newydd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei fod yn cael ei wneud "yn unol ag arfer proffesiynol gorau". Mae'r Amcangyfrif yn nodi cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a'r strwythurau y mae cyrff archwiliedig yn eu defnyddio i drefnu eu hunain. Disgwylir mai £230,000 y flwyddyn fydd y buddsoddiad cyffredinol mewn ansawdd archwilio ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Eleni, gofynnir am £80,000 o hynny o CGC, gyda'r gweddill yn dod o'r ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig.¹¹⁵

116. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y bydd £80,000 yn ariannu dwy swydd dros dro i ymateb i newidiadau sylweddol mewn trefniadau ansawdd archwilio a dwy safon archwilio newydd. Bydd hefyd yn dyblu adolygiadau ansawdd allanol o waith cyfrifon ac yn cynnwys gwaith archwilio ansawdd perfformiad am y tro cyntaf.¹¹⁶

Teithio yn ystod amser gwaith

117. Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod cyfraith achosion ddiweddar wedi awgrymu, pan fydd staff archwilio yn teithio i safleoedd cleientiaid, fod arfer Archwilio Cymru i gyfrif awr gyntaf yr amser teithio yno ac yn ôl yn rhan o amser yr unigolyn yn anghyfreithlon. Dylid cynnwys yr holl amser teithio at ddibenion gwaith (heblaw am amser cymudo rheolaidd) yn y diwrnod gwaith. Mae Archwilio Cymru yn cyfrifo cynnydd £200,000 mewn costau yn 2022-23 i ymdrin â'r diffyg hwn. Er mai ffioedd fydd yn talu'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn, gofynnir am £70,000 o CGC.¹¹⁷

118. Ar y mater hwn, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod cyngor cyfreithiol yn awgrymu bod y risg o atebolrwydd hanesyddol yn isel iawn:

"It advised that we should indeed change our practice so that travel to sites other than to our main offices would be in work time—something that's affected all of the national audit bodies in the UK. So, the risk is low

¹¹⁵ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 7

¹¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraffau 37-38 a 40

¹¹⁷ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 8

*because, firstly, we have proactively sought that legal advice, and so our legal advisers indicate that any tribunal would be pretty sympathetic to an employer who adopted that practice. And we've also moved swiftly, in collaboration with our trade union partners, to implement a change to policy, which they support."*¹¹⁸

Cynnydd Yswiriant Gwladol

119. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd 1.25 y cant mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer cyflogaion a chyflogwyr o fis Ebrill 2022. Mae'r Amcangyfrif yn nodi mai £145,000 yw cyfanswm cost y cynnydd hwn ar gyfer Archwilio Cymru, y gofynnir am £51,000 ohono i'w ariannu drwy CGC gyda'r gweddill drwy ffioedd.¹¹⁹

120. Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod Archwilio Cymru yn deall "y bydd cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y DU i sector cyhoeddus Cymru i dalu cost y cynnydd hwn".¹²⁰

121. Mae'r papur gorchymyn sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn nodi'r canlynol:

*"...the [UK] Government intends to compensate departments and other public sector employers in England at the Spending Review for the increased cost of the Levy and provide Barnett consequentials on this funding to the devolved administrations. If the Government did not take this step then the spending power of public services, including the NHS, would be reduced."*¹²¹

122. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y dull hwn wedi'i ddilyn gan ragweld y bydd costau'r cynnydd Yswiriant Gwladol yn cael eu darparu'n llawn i floc Cymru:

*"What's included in our estimate is the element of that that is proportionate to WCF-funded work. The balance we would include in our fees so that there's an appropriate balance between the two funding streams."*¹²²

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 47

¹¹⁹ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 8**

¹²⁰ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 8**

¹²¹ **Llywodraeth y DU, Build Back Better: Our plan for health and social care, Medi 2021, paragraff 86**

¹²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 64

Cyfraniad at gostau gweithredu

123. Mae'r Amcangyfrif yn nodi mai ychydig iawn o ddarpariaeth a wnaed ar gyfer cynnydd cyflogau a phrisiau ac mae'n tybio y bydd pwysau costau eraill yn cael eu rheoli o'r cyllidebau presennol. Yn 2022-23, mae Archwilio Cymru wedi tybio nad yw cynnydd cyflogau a phrisiau mewn mannau eraill yn debygol o arwain at gynnydd cyfatebol yn y sector cyhoeddus.¹²³

124. Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys cynnydd yng "[ngh]yfraniad Cronfa Gyfunol Cymru at gostau gweithredu". Maent yn gostau nad yw Archwilio Cymru yn eu trosglwyddo i gyrff archwiliedig drwy ffioedd, sef £15,000 ar gyfer "cynnydd posibl mewn cyflogau".¹²⁴

Incwm o ffioedd

125. Daw 65 y cant o incwm Archwilio Cymru o ffioedd, ac mae'n cynnig cynnydd 4.3 y cant yn y maes hwn, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Amcangyfrif. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd y cynnydd yn ariannu'r buddsoddiad ychwanegol mewn Ansawdd Archwilio a'r gofyniad cyfreithiol i staff Archwilio Cymru deithio am resymau busnes yn ystod amser gwaith, yn ogystal â'r cynnydd cyflogau a phrisiau a ragwelir a'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol.¹²⁵

126. Mae Archwilio Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y cynllun ffioedd pan fydd y Pwyllgor wedi trafod yr Amcangyfrif ac yn bwriadu gosod y cynllun hwnnw ddechrau 2022.¹²⁶ Y llynedd, ni roddwyd cynllun ffioedd drafft i'r Pwyllgor Cyllid blaenorol adeg gosod yr Amcangyfrif.¹²⁷ Fodd bynnag, yn gyffredinol mae cynllun ffioedd drafft wedi'i roi i'r Pwyllgor ochr yn ochr ag amcangyfrifon blaenorol – gan roi gwybodaeth am newidiadau i gyfraddau a graddfeydd ffioedd.

¹²³ [Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 8](#)

¹²⁴ [Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 12](#)

¹²⁵ [Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 14](#)

¹²⁶ [Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 14](#)

¹²⁷ [Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 14](#)

127. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd Archwilio Cymru yn ymgynghori ar gynllun ffioedd y flwyddyn nesaf yn ystod yr wythnosau nesaf.¹²⁸ Hefyd, nododd y rhesymau dros y cynnydd 4.3 y cant mewn incwm o ffioedd:

*"The things that are driving the increase in our fees are exactly those that we've already mentioned, namely the change in auditing standards. That means more work, and more work means more time, and, I'm afraid, more cost—general inflationary pressures, which everybody faces, I know... we do everything that we can to absorb as much of that internally as we are able. And, in addition, there are simply new public bodies being created and requiring audit. So, we have, for instance, the new corporate joint committees. There are simply more audits for us to do that mean the fee income that we generate will be higher as well."*¹²⁹

Cyfalaf

128. Yn gyffredinol, mae Archwilio Cymru wedi darparu golwg tymor hwy o'i raglenni buddsoddi cyfalaf yn ei amcangyfrifon. Mae'n gofyn am lai o gyllid yn 2022-23¹³⁰ nag yn 2021-22 (£310,000 o'i gymharu â £350,000), cryn dipyn yn llai nag roedd yn rhagweld gofyn amdano gynt yn 2022-23 yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2021-22 (£800,000).¹³¹

129. Rhennir y rhaglen gyfalaf rhwng costau'r rhaglen newid a chostau'r strategaeth TGCh. Mae costau tymor hir y strategaeth TGCh wedi gostwng o £150,000 a ragwelwyd i £110,000 bob blwyddyn hyd at 2024-25.¹³²

Digidol a TGCh

130. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am y gwariant TGCh, sef £110,000. Mae'r buddsoddiad yn 2022-23 ar gyfer meddalwedd archwilio ariannol a pherfformiad, ynghyd â datblygu "offer ansawdd archwilio awtomataidd". Hefyd, mae gan Archwilio

¹²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 66

¹²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 62

¹³⁰ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 15**

¹³¹ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, Eitem 4**

¹³² **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 15**

Cymru raglen dreigl o adnewyddu offer cyfrifiadur/TG, gyda buddsoddiad yn parhau yn y maes hwnnw.¹³³

Gweithleoedd yn y dyfodol

131. Er bod costau rhaglenni newid yn is yn 2022-23 na'r hyn a ragwelwyd y llynedd, mae hyn oherwydd bod costau wedi'u gohirio flwyddyn yn hytrach na gostyngiad. Mae Archwilio Cymru yn amlinellu £650,000 mewn costau cyfalaf yn y maes hwn yn 2023-24 a £400,000 yn 2024-25 a 2025-26. Mae'r Amcangyfrif yn cyfeirio at yr saib hwn i ganiatáu i Archwilio Cymru ystyried ei lety swyddfa yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi, oherwydd y gofyniad newidiol am lety swyddfa, efallai nad yw Archwilio Cymru "yn gallu gwireddu'r arbedion a ragwelwyd yn flaenorol". Mae'r Amcangyfrif hefyd yn awgrymu ei bod yn "anodd amcangyfrif costau ar hyn o bryd" ond y rhagwelir buddsoddiad.¹³⁴

132. Mae gofyniad posibl hefyd am gostau ychwanegol nad ydynt yn arian parod sy'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau cyfrifyddu os ymrwymir i gytundebau prydles newydd, na all Archwilio Cymru eu hamcangyfrif ar hyn o bryd.¹³⁵

133. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Archwilio Cymru mewn deialog â chyrff archwiliedig ynghylch argaeledd ystafelloedd archwilio yn y dyfodol:

*"As that unravels, that is going to impact on our potential office space for ourselves, because whereas before I think we anticipated moving to smaller premises, paradoxically the loss of audit rooms might lead us actually to have rather more space than we have had in the past, if that's how we need to bring our staff together to work in teams. So, I'm afraid it's a very fluid picture at the moment; we're exploring all options actively at the moment. And so I guess that the best I can offer to the committee is just to keep you in the picture as that evolves over the coming year, so that you're fully sighted on any potential capital requirements that we might need."*¹³⁶

¹³³ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 15

¹³⁴ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, Arddangosyn 5 a thudalen 16

¹³⁵ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 15

¹³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 72

134. O ran cyllid yn y dyfodol, nododd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'r buddsoddiad sylweddol yn ariannu symud i adeiladau newydd neu aros yn yr adeiladau presennol gydag addasiadau. Cadarnhaodd y bydd £200,000 y gofynnwyd amdano yn 2022-23 yn ariannu gwaith paratoi i archwilio opsiynau swyddfa gwahanol, ynghyd â buddsoddi mewn newidiadau i'r adeiladau presennol i alluogi treialu patrymau gweithio newydd. Neilltuir cyllid hefyd ar gyfer plattform TG newydd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a system cofnodi amser newydd.¹³⁷

135. Mewn perthynas â'r targed blaenorol a osododd y Bwrdd, sef arbedion 20 y cant ar gostau ystâd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod rhywfaint o amheuaeth bellach o leiaf ynghylch cyflawni'r arbedion hyn, er nad ailedrychwyd ar y targed eto.¹³⁸ Aeth yn ei flaen i ddweud y canlynol:

*"We would certainly like to make some financial savings. It's one of our biggest areas of non-staff costs, so we have to keep that as an objective if at all possible. Large premises don't necessarily mean higher costs; it depends what sort of premises we're talking about, their location and so forth. So, we're exploring a range of options. We're looking at any potential for sharing and collaboration with other bodies, if that is appropriate. We're also looking at the use of hubs elsewhere in Wales, where our staff could come together at good cost to work in an efficient way. I think most likely at the moment is that we're going to see a hybrid solution to reflect the changing work patterns that we've seen over the last 18 months."*¹³⁹

Teithio a chynhaliaeth

136. Mae'r Amcangyfrif yn trafod yr adolygiad o deithio a chynhaliaeth a gomisiynodd Archwilio Cymru ac a gynhaliodd RSM UK LLP (archwilwyr SAC) yn 2020-21. Trafododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol y cynnig i ymgymryd ag astudiaeth ar 19 Medi 2019.¹⁴⁰

137. Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad, penderfynodd y Bwrdd y dylid dod â lwfans teithio staff SAC i ben a mabwysiadu cyfraddau milltired Cyllid a Thollau EM yn lle

¹³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraffau 74-75

¹³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 77

¹³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 82

¹⁴⁰ **Y Pwyllgor Cyllid (Y Bumed Senedd), 19 Medi 2019, Eitem 6**

hynny. Sefydlodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen staff i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun teithio a threuliau sy'n 'addas ar gyfer y dyfodol'. Roedd hyn yn cynnwys cynigion sy'n cymell ffyrdd mwy gwyrdd o deithio, ffyrdd doethach o weithio (gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd drwy'r cyfnod clo) ac arbed £1,000,000 dros bum mlynedd.¹⁴¹

138. Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi gwneud argymhellion, y mae'r Bwrdd yn ymgynghori arnynt ag undebau llafur a staff.¹⁴² Pan drafododd yr Archwilydd Cyffredinol hyn â'r Pwyllgor ym mis Medi, nododd ei fod yn bwriadu ailfuddsoddi cyfran sylweddol o'r arbedion mewn cyflogau neu gynllun teithio a chynhaliaeth diwygiedig.¹⁴³

139. Nid yw'r gyllideb a amlinellir yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn rhagdybio gostyngiad yn y lwfans teithio yn 2022-23, wrth i Archwilio Cymru barhau i ymgynghori â staff.

140. Mae'r Amcangyfrif hefyd yn awgrymu gostyngiad cyffredinol yn y teithio sy'n ofynnol yn 2022-23 ac mae'n tybio rhai arbedion ond yn nodi efallai y bydd lle ar gyfer arbedion yn y dyfodol wrth i "batrymau gwaith newydd ddod ymwreiddio".¹⁴⁴

141. Ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor ar 1 Tachwedd i roi diweddariad cynnydd ar yr adolygiad teithio a chynhaliaeth, gan amlinellu cynigion ar gyfer ailfuddsoddi cyfran o gynilion drwy godiad cyflog, a nodi cynnig i gynnig taliad £7,000 ymlaen llaw i staff (gyda chymhelliant £300 yn fwy na gwerth lwfans dwy flynedd) i adael y lwfans teithio yn 2022 (yn hytrach na pharhau i'w dalu tan 2024). Er mwyn ariannu'r taliad ymlaen llaw, byddai ar Archwilio Cymru angen hyd at £1,480,000 mewn Amcangyfrif Atodol yn 2021-22.¹⁴⁵

142. Amlinellodd y llythyr hefyd lwfans gweithio gartref £26 y mis, a dalwyd ers dechrau'r pandemig ac mae'r Bwrdd wedi cefnogi parhau â hynny.

¹⁴¹ Llythyr gan Archwilio Cymru – Adolygiad gwerth am arian o gynllun teithio a threuliau Archwilio Cymru, 1 Medi 2020

¹⁴² Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 6

¹⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **29 Medi 2021**, paragraff 176

¹⁴⁴ Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 6

¹⁴⁵ Llythyr gan Archwilio Cymru, 1 Tachwedd 2021

143. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor nad oedd yn gallu cadarnhau'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r cynllun olynol, gan fod Archwilio Cymru yn parhau i fod wrthi'n trafod ag undebau llafur ynghylch y cynigion terfynol.¹⁴⁶

144. Esboniodd fod adroddiad RSM yn dangos y byddai cael gwared ar y lwfans sefydlog a rhoi cyfraddau milltired safonol Cyllid a Thollau EM, sef 45c y filltir, yn ei le yn arbed oddeutu £500,000 y flwyddyn yn erbyn y lefelau cyn y pandemig. Aeth yn ei flaen i ddweud y canlynol:

*"...our board has been clear that we need to balance those potential savings with recognition of the very real and significant financial impact that removal of the allowance will have on many of our staff, and we need to protect as best we can staff morale and retention. So, the board set aside a reinvestment fund, as it were, of £300,000 of those potential savings to put back into the system in some way. The net effect of that, once we have a new scheme in place, is to deliver savings of £1 million over five years, once we have a new scheme in place from 2024."*¹⁴⁷

145. O ran y codiad cyflog a oedd yn cael ei ystyried, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn bwylllog wrth ddatgelu niferoedd o gofio cam presennol y trafodaethau ond cyfeiriodd at godiad cyflog £750 a gynigiwyd ar gyfer yr holl staff fel rhan o ymgynghoriad yn gynharach yn yr haf. Nododd y byddai codiad cyflog yn cael ei ariannu o'r gronfa ailfuddsoddi gwerth £300,000, gan nodi gostyngiad yn yr angen i gynyddu ffioedd neu'r arian rydym yn gofyn amdano o'r gronfa gyfunol o ganlyniad i'r arbedion y byddai'r newid yn eu creu.¹⁴⁸

146. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y lwfans gweithio gartref, sef £26 y mis, yn costio oddeutu £90,000 y flwyddyn i Archwilio Cymru a'i fod wedi bod ar gael ers dyddiau cynnar y pandemig. Ychwanegodd y canlynol:

"It was certainly a recommendation of our staff task and finish group, who drew up proposals for the new scheme, that that should continue, and the board is supportive of doing that, certainly all the time when we're working in this way. It seems an entirely appropriate allowance to

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 88

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraffau 89-90

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 92

be making to our staff, who are, I'm sure, incurring costs of their own at home through working in this way on our behalf."¹⁴⁹

147. Ynghylch y ddarpariaeth arfaethedig i derfynu'r lwfans teithio, awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol, pe bai'n parhau, y byddai'n dechrau creu arbedion llawer mwy sylweddol o 2022 ymlaen (yn amodol ar y nifer sy'n manteisio arni), gyda'r arbedion hynny'n cael eu dychwelyd i CGC, naill ai ar ddiwedd y flwyddyn neu drwy Amcangyfrif atodol yng nghanol y flwyddyn.¹⁵⁰

Ansicrwydd

148. Mae Archwilio Cymru yn nodi nifer o feysydd a allai arwain at newidiadau i'r Amcangyfrif yn y dyfodol, gan gynnwys:

- **Chwyddiant cyflogau a phrisiau:** Os yw pwysau chwyddiant yn sylweddol fwy na rhagfynegiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, gall fod angen i Archwilio Cymru ailedrych ar yr agwedd hon ar ei gyllideb ar sail denu a chadw staff.
- **Recriwtio a chadw staff:** Mae Archwilio Cymru yn nodi prinder gweithwyr archwilio proffesiynol yn y DU, sy'n arwain at fwy o drosiant staff. Mae'n awgrymu, os bydd y duedd hon yn parhau, y gall fod angen iddo adolygu ei strategaeth cyflog a gwobrwyo yn ystod 2022-23.
- **Teithio a chynhaliath:** Nid yw Archwilio Cymru wedi cynnwys tybiaethau ar gyfer gostyngiad posibl mewn costau teithio os yw staff yn dewis derbyn y taliad ymlaen llaw arfaethedig. Mae'n nodi y bydd unrhyw danwariant sy'n deillio o hyn yn cael ei ddychwelyd i CGC ac os yw'r effaith yn debygol o fod yn sylweddol, bydd Amcangyfrif Atodol yn cael ei baratoi yn ystod y flwyddyn.
- **Incwm o ffioedd:** Dywed yr Amcangyfrif fod "ansicrwydd sylweddol" o ran maint y gwaith archwilio sydd ei angen yn 2022-23. Mae Archwilio Cymru yn awgrymu y gall fod angen iddo ddychwelyd at y Pwyllgor Cyllid pe bai'r gwaith hwnnw'n cynnwys y disgwyliadau presennol.
- **Safonau adrodd newydd:** Mae'r newidiadau i ofynion cyfrif am brydlesi (Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16) i'w cyflwyno o 2022-23, ar ôl eu gohirio. Nid oes angen addasiadau cysylltiedig i'r Amcangyfrif ar gyfer 2022-23, ond gall

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 101

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 97

fod newid i wariant cyfalaf yn 2023-24 os bydd Archwilio Cymru yn ymrwymo i drefniad prydles newydd. Fodd bynnag, ni all amcangyfrif hyn ar hyn o bryd.¹⁵¹

149. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod rhai arwyddion cynnar o faterion recriwtio a chadw staff, ond bod adolygiad sylfaenol o delerau ac amodau yn y flwyddyn i ddod yn hynod annhebygol.¹⁵²

150. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio fod y rhaglen hyfforddeion a phrentisiaid wedi diogelu Archwilio Cymru i raddau, er bod canran uwch o hyfforddeion blwyddyn olaf wedi gadael Archwilio Cymru ar ôl cymhwyso y llynedd.¹⁵³ Nododd fod tua hanner yr hyfforddeion wedi'u cadw dros y blynyddoedd diwethaf ac mai bod yn llif i'r sector cyhoeddus ehangach fu'r bwriad erioed, gan ychwanegu'r canlynol:

*"We aren't seeing huge swathes of our trainees yet leaving to go to private sector firms. Having said that, I am acutely aware, as I'm sure you are, of the challenges in recruiting auditors to firms in England to undertake mostly local government audit, for example, public audit, and we're just watching to see what happens. UK Government, I think, has provided additional money to local authorities in England to fund increased fees, so there is a possibility, I suppose, that the firms will start to pay more to trainees when they're newly qualified and that some of our trainees might be attracted by that."*¹⁵⁴

151. O ran yr ansicrwydd ynghylch maint y gwaith archwilio sydd ei angen yn 2022-23, esboniodd y Pennaeth Cyllid y canlynol:

"Where there's uncertainty is if something happens during the year and we have to do significant extra audit work, which we would charge fees for, but we would also need the resources to deliver. That's currently not covered in the accruing resources figure within the estimate. We've done it in previous years, where we've come back to the committee to say, 'We know we're going to generate more income, we need to spend more money to generate that income. So, it's no additional cost to the

¹⁵¹ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalennau 17**

¹⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 104

¹⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 105

¹⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 107

consolidated fund, but we need to increase our recruitment resources.’ We think we’ve allowed enough headroom for next year, but there is always a risk of something unexpected happening.”¹⁵⁵

Cynnig newid cyllid 2023-24

152. Mae'r Amcangyfrif yn amlinellu cynnig i newid rhywfaint o waith archwilio perfformiad a ariennir gan ffioedd i'w ariannu drwy CGC. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â:

“...darparu adolygiadau “thematig” neu bwnc penodol sydd fel arfer yn cynnwys gwaith archwilio ar draws nifer o gyrff a archwilir – gallai'r gwaith hwn fod ar lefel Cymru gyfan a/neu ranbarthol, yn aml gyda p[h]wyslais traws-sector neu system gyfan; rydym hefyd yn tueddu i fod eisiau edrych ar faterion fel arweinyddiaeth system Llywodraeth Cymru ar y thema benodol yr ydym yn eu harchwilio, na ellir eu hariannu o'r ffi.”¹⁵⁶

153. Mae Archwilio Cymru yn pwysleisio bod y dull cyllido presennol yn arwain at rywfaint o anhyblygrwydd yn y ffordd y caiff canfyddiadau eu lledaenu, gyda chyfranwyr yn disgwyl allbynnau sy'n benodol iddynt – a all fod yn wir neu beidio. Mae'n awgrymu bod cymryd ffioedd gan nifer o gyrff yn creu “cymhlethdod trafodiadol sylweddol wrth gynllunio'r darnau hyn o waith ac yn codi'r amser yn ôl i gyrff archwiliatedig unigol”.¹⁵⁷

154. Mae Archwilio Cymru yn nodi ei fod wedi trafod y dull hwn â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r cynnig “yn gyffredinol”.¹⁵⁸

155. Roedd Amcangyfrif 2020-21 hefyd yn cynnwys newid adnodd wedi'i ariannu gan ffioedd i'w ariannu o CGC.¹⁵⁹ Wrth graffu ar yr Amcangyfrif hwnnw, cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol fod newid adnodd o waith archwilio a ariennir gan ffioedd i weithgarwch a ariennir o CGC yn bwynt pwysig o ran egwyddor.¹⁶⁰

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 107

¹⁵⁶ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 19**

¹⁵⁷ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 19**

¹⁵⁸ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 20**

¹⁵⁹ **Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2021, tudalennau 16-17**

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid (Y Bumed Senedd), Cofnod y Trafodion, **7 Tachwedd 2020**, paragraff 48

156. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd Archwilio Cymru yn trafod y dull hwn â chyrrff archwiliedig yr effeithir arnynt dros y misoedd nesaf ac yn gwahodd y Pwyllgor i fynegi barn am y cynnig.¹⁶¹

157. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio fod trafodaethau wedi'u cynnal â nifer o uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru a'u bod yn gefnogol ar y cyfan, gan ychwanegu'r canlynol:

*"...what they did say was to just reiterate really that this was something, clearly, that we would want to and need to be totally transparent about and discuss with the audited bodies, and that will be something that we'll be flagging in the fee consultation..."*¹⁶²

158. O ran sicrhau didyniadau teg o gyllidebau cyrrff archwiliedig os na chynhelir gweithgareddau ar sail flynyddol gyson ymhlith yr holl gyrff perthnasol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y byddai'r newid cyllid yn cefnogi ei waith dewisol, yn hytrach na'i waith archwilio cyfrifon.¹⁶³

Barn y Pwyllgor

159. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y targedau arbedion heriol a bennwyd ar gyfer 2022-23 ac yn derbyn bod yr Amcangyfrif y gofynnwyd amdano'n angenrheidiol i ymateb i'r gofynion a roddir ar Archwilio Cymru, yn enwedig o gofio'r ffocws uwch ar gyflwr cyllid cyhoeddus Cymru o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, gyda mwy na degawd o gyni a chyfyngiadau ar gyllid sector cyhoeddus, ni ellir gwarchod sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru rhag y pwysau ariannol hyn.

160. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod gwerth rheoli'r gyllideb mewn modd deinamig wrth ymateb i ffactorau allanol a newid blaenoriaethau, mae o'r farn y dylai Archwilio Cymru ganolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar wneud arbedion ac effeithlonrwydd i ymdopi â phwysau yn ystod y flwyddyn, a defnyddio cyllidebau atodol fel dewis olaf yn unig.

161. Awgrymodd Adroddiad Gwaddol y Pwyllgor Cyllid blaenorol¹⁶⁴ y byddai edrych ar y modd y mae perfformiad ariannol ac effeithlonrwydd yn cael ei fonitro a'i adrodd yn ystod

¹⁶¹ **Rhan 2 Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 20**

¹⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 117

¹⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, **10 Tachwedd 2021**, paragraff 121

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, **Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd**, Mawrth 2021, paragraff 99

y flwyddyn yn bwysig yn y Chweched Senedd, ac mae'r Pwyllgor am sefydlu deialog agored ag Archwilio Cymru o'r cychwyn cyntaf i sicrhau y cyflawnir hyn.

162. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol, yn ogystal â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnal cynlluniau peilot sy'n benodol i Gymru, ac mae'n cefnogi barn y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylai'r Fenter Twyll Genedlaethol gael ei hariannu'n ganolog. Fodd bynnag, mae'n teimlo y gallai nodi holl gostau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn glir ar wahân fod o fudd mewn gwybodaeth ategol sy'n cyd-fynd â'r Amcangyfrif.

163. Mae'r Amcangyfrif yn nodi nifer o feysydd penodol o gyllid CGC yn 2022-23, megis cynnydd cyflogau a phrisiau, cost uwch gwaith archwilio a safonau archwilio ac ansawdd newydd. Gan fyfyrio ar ei drafodaeth gyntaf o amcangyfrif Archwilio Cymru, byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o fanylion yn y naratif ategol ar sut y bydd yr elfennau penodol o'r cyllid yn cael eu gwario, er enghraifft – dylid nodi staff ychwanegol, hyfforddiant neu adnoddau eraill oll yn glir yn yr Amcangyfrif, er mwyn sicrhau gwaith craffu ystyrlon ac effeithiol.

164. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r costau £70,000 sy'n gysylltiedig â'r gyfraith achosion ddiweddar mewn perthynas â theithio yn ystod amser gwaith ac yn cael sicrwydd gan y cyngor cyfreithiol bod y risg o atebolrwydd hanesyddol yn isel iawn o gofio'r newid rhagweithiol mewn polisi.

165. Wrth gydnabod yr ansicrwydd y mae Archwilio Cymru yn ei wynebu wrth bennu cyllidebau a chynlluniau ar gyfer 2022-23, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael gwybod pa dybiaethau a wnaed wrth amcangyfrif costau teithio a defnyddio contractwyr tymor byr.

166. Mae ansicrwydd sylweddol hefyd ynghylch anghenion llety yn y dyfodol, gan arwain at estyn prydles flwyddyn yn swyddfa Caerdydd er mwyn rhoi amser i Archwilio Cymru archwilio ei ofynion ystâd yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sylweddol a nodwyd yn y maes hwn ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni all y Pwyllgor ymrwymo i'r lefel hon o gyllid ar hyn o bryd heb ragor o fanylion.

167. O gofio'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol a gynigir yn y blynyddoedd i ddod, mae'n hanfodol bod y Pwyllgor yn ymgysylltu'n llawn â chynigion llety yn y dyfodol wrth iddynt ddatblygu, yn enwedig os bydd angen lefel y cyfalaf a nodwyd yn yr Amcangyfrif. Mae'n rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth am newidiadau i'r targedau arbedion a nododd y Bwrdd yn flaenorol.

168. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhybudd cynnar gan Archwilio Cymru o adolygiad posibl o gyflogau ac amodau oherwydd pwysau'r farchnad, prinder gweithwyr archwilio proffesiynol a mwy o drosiant staff. Er ei fod yn nodi bod adolygiad sylfaenol o delerau ac amodau yn annhebygol yn y tymor byr, gyda rhaglenni graddedigion a hyfforddeion y sefydliad yn cynnig rhywfaint o ddiogelwch, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch gallu Archwilio Cymru i gadw staff o gofio bod canran uwch o hyfforddeion wedi gadael y sefydliad ar ôl cymhwyso y llynedd na'r blynyddoedd blaenorol. Mae'n rhaid i unrhyw adolygiad o gyflogau ac amodau ystyried y cyfyngiadau ar gyllid sector cyhoeddus.

169. Nid yw'r Amcangyfrif yn rhagdybio gostyngiad yn y lwfans teithio y flwyddyn nesaf, wrth i Archwilio Cymru barhau i ymgynghori â staff ar drefniadau teithio a chynhaliaeth yn y dyfodol. Felly mae'r Pwyllgor yn synnu bod yr Amcangyfrif yn cynnwys addasiad cyfalaf gweithio £250,000 gan ragweld amcangyfrif atodol ar gyfer y cynnig i derfynu'r lwfans teithio sefydlog. Nid yw'r Amcangyfrif yn cynnwys esboniad o'r addasiad hwn ac mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen hyn i'w alluogi i gael dealltwriaeth lawn o oblygiadau ariannol y cynnig. Er mwyn gwella tryloywder, yn ogystal â'i helpu i ddeall a chraffu wedi hynny, byddai disgrifiad llawnach o'r addasiad penodol hwn o fudd i'r Pwyllgor. O ran yr addasiad ar gyfer amcangyfrifon o symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn fwy cyffredinol, ac o ystyried sylwadau Archwilio Cymru ar anhawster amcangyfrif yr agwedd hon ar yr Amcangyfrif, byddai disgrifiad llawnach o'r elfen hon hefyd yn fuddiol.

170. Gan nad yw Archwilio Cymru wedi cynnwys manylion y newidiadau i'r cynllun teithio a chynhaliaeth yn yr Amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, ni ddylid tybio bod cytundeb o Amcangyfrif 2022-23 yn gytundeb o newidiadau i'r cynllun teithio a chynhaliaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cytundeb o'r cynllun yn ddarostyngedig i broses fewnol Archwilio Cymru ac mae hefyd yn disgwyl cael rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynllun cyn i Gyllideb Atodol gael ei thrafod. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl addasiadau perthnasol i'r addasiad cyfalaf gweithio, sydd yn Amcangyfrif 2022-23, os na fydd newidiadau i'r cynllun teithio a chynhaliaeth yn mynd rhagddynt.

171. Nid yw Archwilio Cymru wedi rhoi amcangyfrif o gostau'r cynllun olynol eto ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch lefel yr arbedion a fydd yn cael eu dychwelyd i CGC. Nid yw'n glir chwaith sut y bydd y gronfa "ailfuddsoddi" yn cael ei defnyddio, ar wahân i godiad cyflog posibl, neu a yw parhau â'r lwfans gweithio gartref £26 yn gost sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod problemau wrth drafod y materion hyn wrth i drafodaethau ag undebau llafur a staff barhau, ond byddai wedi bod yn well ganddo drafod y materion hyn yn gynharach.

172. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi yr awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol fod adroddiad yr archwilwyr allanol, sydd wedi llywio'r cynigion, wedi'i gomisiynu gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol. Trafododd y Pwyllgor gynigion Archwilio Cymru ar gyfer yr adolygiad ar 19 Medi 2019 a chymeradwyo'r dull o ymdrin â'r adolygiad. Mae manylion a chwmpas yr adolygiad hwnnw, yn ogystal ag ymgysylltu ag RSM ar yr adolygiad, wedi bod yn fater i Archwilio Cymru. Er bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor blaenorol wedi croesawu adolygiad o'r trefniadau presennol a'r amcanion bras y mae'n eu harchwilio, ni all roi ei gefnogaeth nac fel arall i gynnig Archwilio Cymru nes iddo gael rhagor o wybodaeth.

173. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Archwilio Cymru wedi bod yn talu lwfans gweithio gartref £26 y mis i staff drwy gydol y pandemig am oddeutu £90,000 a hoffai gael gwybod sut y daethpwyd i'r penderfyniad hwn.

174. Nid oes cynllun ffioedd drafft yn cyd-fynd â'r Amcangyfrif am yr ail flwyddyn yn olynol, er bod y Pwyllgor yn derbyn y bu rhesymau eithriadol dros ohirio'r ymgynghoriad ffioedd y llynedd. Ac eithrio mewn amgylchiadau esgusodol, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys y cynllun ffioedd ochr yn ochr ag amcangyfrifon yn y dyfodol, o gofio'r cysylltiad uniongyrchol rhwng cyllid a ffioedd CGC. Mae peidio â chynnwys manylion am yr elfen sylweddol hon o gyllid Archwilio Cymru yn golygu na all y Pwyllgor graffu'n llawn ar gyllideb Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael yr adborth gan gyrff archwiliedig yn sgil y cynnydd arfaethedig 4.3 y cant mewn incwm o ffioedd.

175. Byddai hefyd o fudd i'r Pwyllgor gael rhagor o fanylion ynghylch beth mae'r cynnydd hwn mewn incwm o ffioedd yn ei gynnwys, pa gyfran sy'n dod o waith ychwanegol ac a fydd cynnydd i gyfraddau'r ffioedd. Er bod y Pwyllgor yn derbyn bod cysylltiad rhwng cynnydd yn y costau y gofynnir amdanynt yn elfen CGC o gyllid ac incwm o ffioedd yn 2022-23, nid yw mewn sefyllfa i gytuno nac anghytuno â'r incwm uwch o ffioedd heb ragor o fanylion am gyfansoddiad y cynnydd hwnnw.

176. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y cynnig i newid rhywfaint o waith archwilio perfformiad a ariennir gan ffioedd ar hyn o bryd i'w ariannu drwy CGC o 2023-24 ac mae'n nodi cefnogaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd cael barn cyrff archwiliedig yn hanfodol i gael cefnogaeth y Pwyllgor.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn dangos yn glir sut y mae'n cadw at y datganiad o egwyddorion wrth lunio cyllidebau yn y dyfodol y tu hwnt i 2022-23 ac, yn benodol, na ddylai gymryd yn ganiataol y bydd y cyllid yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall.

Argymhelliad 10. Yn unol â'r datganiad o egwyddorion, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Archwilio Cymru ariannu costau sy'n deillio o bwysau yn ystod y flwyddyn drwy sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd, yn hytrach na thrwy gyllidebau atodol.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ddwywaith y flwyddyn ar yr arbedion effeithlonrwydd a wneir yn ystod y flwyddyn.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod amcangyfrifon yn y dyfodol yn cynnwys dadansoddiad o holl gostau'r Fenter Twyll Genedlaethol i alluogi nodi cynnydd un-tro a chynnydd blynyddol.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Archwilio Cymru fyfyrion ar y wybodaeth y mae'n ei rhoi yn ei Amcangyfrif ac ystyried sut y gall sicrhau ei fod yn rhoi golwg fanwl o'i geisiadau cyllid yn y dyfodol.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn egluro sut y mae wedi amcangyfrif costau teithio yn 2022-23 a sut y mae'r costau hynny'n rhyngweithio â'r defnydd o staff contract tymor byr.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar ei strategaeth ystâd a'r targedau arbedion cysylltiedig pan fo'r ffyrdd o weithio'n cael eu hadolygu a chyn llunio'r Amcangyfrif ar gyfer 2023-24.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am drosiant staff cyffredinol (ac yn benodol am staff sy'n cwblhau'r rhaglenni graddedigion a hyfforddeion), gan gynnwys tueddiadau hanesyddol ac unrhyw gymhariaeth â sefydliadau tebyg.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr amcangyfrif o symudiadau mewn cyfalaf gweithio a bod yn barod i wneud yr addasiadau perthnasol os na fydd y newid i'r trefniadau teithio a chynhaliadau yn mynd rhagddynt yn 2022-23.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am ei benderfyniad i gyflwyno lwfans gweithio gartref a'i gyfiawnhad dros gadw'r taliad yn y dyfodol.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cynllun ffioedd drafft yn cyd-fynd ag amcangyfrifon yn y dyfodol i sicrhau y gall y Pwyllgor drafod y sefyllfa gyllido gyfan.

Argymhelliad 20. Yn niffyg cynllun ffioedd drafft, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am gyfansoddiad ei gynnydd i ffioedd yn 2022-23 cyn gosod Cynllun Ffioedd Terfynol.

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi adborth manwl o'i ymgynghoriad ar ffioedd, yn enwedig mewn perthynas â'r newid cyllid arfaethedig yn 2023-24.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
29 Medi 2021	Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru Archwilio Cymru Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru Archwilio Cymru Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol Archwilio Cymru Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio Archwilio Cymru
10 Tachwedd 2021	Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru Archwilio Cymru Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru Archwilio Cymru Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio Archwilio Cymru Nicola Evans, Pennaeth Cyllid Archwilio Cymru

Atodiad B: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio
Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31
Mawrth 2023



Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Hydref 2021

Paratowyd ar y cyd a'i gyflwyno gerbron y Senedd dan Adran 20(1)
o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru, a chyflwyno'r amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.

Yn unol ag Adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sy'n angenrheidiol i'r Archwilydd Cyffredinol ymarfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw newidiadau yn yr amcangyfrif yr ystyria'u bod yn briodol, ond ni ellir gwneud dim newidiadau oni fydd:

- ymgynghori wedi bod â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- oni fydd unrhyw sylwadau a wneir gan y naill neu'r llall wedi eu cymryd i ystyriaeth.

Rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn wneud cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronrus) a thaliadau a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn cysylltiad â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

Cynnwys

Rhagair	4
Cwmpas y Gyllideb 2022-23	6



Rhagair

Mae Archwilio Cymru yn bodoli i roi hyder i'r Senedd a phobl Cymru mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n dda ac sy'n atebol.

Ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23 yw Cwmpas y Gyllideb sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon. Byddwn yn darparu gwybodaeth ategol ar wahân ar yr Amcangyfrif ar gyfer y Pwyllgor Cyllid i ddeall sut y byddwn yn defnyddio'r cyllid y gofynnir amdano.

Nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yr ansicrwydd parhaus ynghylch gwariant yn y dyfodol yn ei llythyr ar 2 Awst 2021. Rydym yn cydnabod hyn; ond rydym yn ymwybodol hefyd o adolygiadau archwilio diweddar ledled y DU sydd â goblygiadau eang posibl i'r proffesiwn archwilio cyfan, disgwyliadau cynyddol o ran archwilio ac ansawdd y gwaith archwilio hwnnw.

Am y rheswm hwn, mae ein Hamcangyfrif yn ceisio cyfyngu'r cynnydd yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer Archwilio Cymru i 3.1%. Bydd hyn yn ein galluogi i gyllido buddsoddiad ychwanegol hanfodol mewn ansawdd archwilio yn ogystal â bodloni pwysau cyflog a phrisiau a chost y cynnydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr.

Gyda'r cynnydd enfawr mewn gwariant cyhoeddus mewn ymateb i bandemig byd-eang COVID-19, mae ein gwaith yn bwysicach nag erioed. Bydd sicrhau bod trethdalwyr Cymru yn cael y gwerth gorau posibl o'r bunt gyhoeddus a bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddi-dor ac yn effeithlon â'r defnyddiwr gwasanaeth yn flaenllaw hyd yn oed yn bwysicach wrth i ni adfer o bandemig COVID. Bydd gan ein gwaith ran bwysig wrth gefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni hyn.

Mae ein rhaglen eang o waith gwerth am arian yn hanfodol i atebolrwydd seneddol cadarn drwy Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym yn archwilio cyfrifon a gwaith llywodraethu dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd ynghylch sut mae arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli. O Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, drwy bron bob maes darparu gwasanaethau cyhoeddus, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn y bunt gyhoeddus lle bynnag y caiff ei gwario.

Rydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godwn, ar yr amod nad yw hynny'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ni ei ddarparu. Mae ein gwybodaeth ategol yn nodi manylion ein rhaglen gwerth am arian ein hunain a'r targedau arbedion a bennwyd gan y Bwrdd i ariannu ein rhagolygon ariannol tymor canolig.

Yn 2022-23 rydym wedi gosod targedau arbedion heriol o reoli swyddi gwag staff a meysydd gwariant eraill gan gynnwys ein costau teithio.

Rydym wrthi'n cwblhau adolygiad sylweddol o'n cynllun teithio yr ydym yn disgwyl iddo sicrhau arbedion yn y dyfodol. Rydym hefyd yn adolygu ein defnydd o swyddfeydd yng ngoleuni'r gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiad yr ymarferion hyn a'u canlyniadau.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020-21 yn nodi ein record o gyflawniad ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Mawrth eleni, gosodwyd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 gerbron y Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-23, ac yna caiff ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno ei osod gerbron y Senedd ym mis Mawrth 2022.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda'r Pwyllgor Cyllid maes o law.



Lindsay Foyster

Cadeirydd, Archwilio
Cymru



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Cwmpas y Gyllideb 2022-23

Amcangyfrif o ofynion cyllideb Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

- 1 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllideb yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.
- 2 O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, bydd y Cynnig Cyllideb yn awdurdodi:
 - faint o adnoddau y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
 - faint o adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gellir eu cadw yn hytrach na chael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru; a
 - y swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3 Mae'r gofynion hyn, sydd oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm yn amcangyfrifon yn unig, yn cael eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.
- 4 Nodir manylion sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gynnal archwiliad cyhoeddus yng Nghymru yn 2022-23 yn ein canllaw ategol.

Arddangosyn 1: crynodeb o ofynion cyllideb amcangyfrifedig 2022-23

	£'000
Adnoddau, ac eithrio adnoddau sy'n cronni, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:	
• Cyllid	8,298
• Cyfalaf	310
Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau ar gyfer archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol ac adennill costau a ysgwyddir i drydydd parti - y cyfan i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	15,082
Gofyniad arian parod net gan Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	9,078

- 5 **Mae Arddangosyn 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i ofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Arddangosyn 2: cysoniad o'r gofyniad adnoddau i'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

	£'000
Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf	8,608
Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant	(280)
Addasiad nad yw'n arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio	750
Gofyniad arian parod net gan Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru	9,078



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru